ECO'R WYDDFA

RHIF 3 MAI 1976 Pris 8g.

DOWCH YNGHYD

Apêl yw hwn at garedigion hen Ysgol Sir Brynrefail, gan gynnwys pob un o'r cyn-ddisgyblion.

Yn dilyn yr adroddiad yn 'Eco'r Wyddfa' (Rhif 1) a llythyrau yn y papurau wythnosol ynglŷn â dyfodol Ysgol Sir Brynrefail, mae sawl un wedi sylweddoli ei bod yn hen bryd cael amryw o'r ardal at ei gilydd. Bwriedir cynnal cyfarfod cyhoeddus felly i wyntyllu a thrafod dyfodol yr ysgol gyda hyn (yn Llanrug o bosib).

Disgwylir swyddogion y Pwyllgor Addysg yno i ateb eich cwestiynau. Dowch yno'n llu rhag ofn mai hwn fydd y cyfle olaf i ddatgan eich barn.

Cewch fwy o fanylion ynglŷn â'r dyddiad a'r man cyfarfod ar bosteri a ddosberthir o amgylch pob pentref yn yr ardal gyda hyn. Gwyliwch amdanynt. D'wedwch wrth eich ffrindiau a'ch cymdogion.

Samuel Jones
Bethel a Rhiwlas

Trevor Wyn Williams
Llanberis a Chwm-y-glo

Pat Larsen
Brynrefail, Clwt-y-bont
a Phenisarwaun

Dafydd Iwan
Waunfawr a Cheunant

I MEWN HEB WRTHWYNEBIAD

Yn anffodus ni chawsom lun o'r **Cynghorydd Francis Jones,** Llanberis i law ar gyfer y rhifyn yma, ond mae ein llongyfarchion yr un mor ddiffuant iddo yntau hefyd am gael ei ethol yn ddi-wrthwynebiad.

Cewch ddarllen am yr ymgeiswyr eraill yn Eco'r Wyddfa y mis hwn a'n hapêl ni a'r ymgeiswyr yw — **Os gwelwch yn dda, ewch i bleidleisio ar Fai 6ed.**

Gyda llaw, nid yw pob ymgeisydd wedi dymuno cynnwys ei lun yn Eco'r Wyddfa, ond cafodd pob un y cynnig.

YMDDIHEURIADAU

Oherwydd yr adroddiadau gan yr ymgeiswyr yn Etholiad Cyngor Arfon bu rhaid gadael y colofnau misol canlynol allan am y mis hwn Colofn y Dysgwyr; O Seneddau'r Fro ac Atgofion o'r Archifdy. Mae'n ddrwg gennym am hyn, ond byddant yn ôl y mis nesaf.

Mae sawl erthygl wedi dod i law'r Golygydd, ond oherwydd diffyg gofod mae'n rhaid eu cadw'n ôl. Ond peidiwch â phoeni — fe gant eu cyhoeddi yn y man.

TYDI A RODDAIST

Ddydd Sadwrn y Pasg, Ebrill 17, dadorchuddiwyd cofeb i'r diweddar T. Rowland Hughes o flaen 20 Stryd Goodman, Llanberis.

Cymerwyd rhan yn y cyfarfod gan Mrs. Eirene Davies, Syr Ben Bowen Thomas, Mr. Selwyn Pritchard a Stephen, mab Mr. a Mrs. D. Roberts, perchnogion presennol y ty.

Ar ôl y dadorchuddio bu gwasanaeth yng Nghapel Gorffwysfa o dan arweiniad y Parch. John Owen. Siaradwyd gan Mr. Edward Rees (cyn-brifathro'r Coleg Normal) a Mr. Rowland Wyn Jones, nai T. Rowland Hughes. Canwyd geiriau o waith y bardd, "Dwy law yn erfyn", gan Côr Plant Ysgol Dolbadarn.

Canodd Miss Bethan B. Jones "Yr Hen Delynor" o waith y bardd ar alaw a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur gan Mrs. Ann Pritchard.

Cafwyd anerchiad hefyd gan Dafydd Wigley, A.S. a chanodd y gynulleidfa emyn adnabyddus T. Rowland Hughes, "Tydi, a roddaist", i derfynu.

Rhan o'r dorf tu allan i 20 Stryd Goodman.

GEMAU GIAMOCS

-CWPAN ECO'R WYDDFA

Mae'r trefnyddion yn frwdfrydig iawn y bydd llwyddiant mawr i'r fenter, ac eisoes mae addewid o dimau o Lanrug, Cwm y Glo, Llanberis a Deiniolen. Bydd o leiaf 12 ymhob tîm yn cynnwys 6 merch, a'r aelodau i fod yn 15 oed neu hŷn. Bydd y cystadleuthau ar yr un llinellau â rhai'r BBC.

Y wobr i'r tîm buddugol fydd cwpan i'w gadw am flwyddyn yn unig, yn rhoddedig gan 'Eco'r Wyddfa'. Bydd hefyd darian fel gwobr yn rhoddedig gan Bobby Haines o Gaernarfon, a fydd hefyd yn gweithredu fel rheolwr.

Dyddiad y gystadleuaeth fawr yw Nos Iau, 15ed o Orffennaf. Cofiwch amdano.

ECO'R WYDDFA

RHIF 3 MAI 1976

Golygydd : *Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, Glanffynnon Llanrug.*

Ffôn : Caernarfon 3719.

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Nant Peris.

PWY 'DI PWY

Dyma restr o rai o Swyddogion Eco'r Wyddfa ynghyd â'u cyfrifoldebau. Apeliwn yn daer arnoch i gysylltu â'r rhain os bydd gennych unrhyw gyfraniad i'r papur, boed y cyfraniad hwnnw ar lafar neu yn ysgrifenedig.

Golygydd : *Arwel Jones*

Golygydd Erthyglau :
Norman Williams. Cysylltwch â'r ddau yn y cyfeiriad yma : Gwên-y-Wawr, Glanffynnon, Llanrug. Ffôn : Caernarfon 3719.

Swyddog Hysbysebion :
John Roberts, 'Brynawelon,' Ffordd yr Orsaf, Llanrug.

Trefnydd Gwerthiant :
Selwyn Williams, 'Cartref,' Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Ffôn : Caernarfon 3577.

Golygydd Chwaraeon :
Dafydd Evans, 'Sycharth,' 5, Bryn Eglwys, Penisarwaen.

Yn ogystal â'r swyddogion hyn, mae yna Ohebwyr Lleol, a byddant hwythau'n falch iawn o dderbyn eich cyfraniadau. Mae enwau a chyfeiriad y gohebwyr yma i'w gweld o dan newyddion y pentrefi yn y rhifyn yma. Gwnewch eu gwaith yn haws — dewch â'r newyddion iddyn nhw.

CROESO MAWR

Cafodd y ddau rifyn cyntaf o Eco'r Wyddfa groeso a derbyniad eithriadol. Gan ein bod yn cymryd trafferth mawr gyda'r trefniadau gwerthu, gallwn roi ffigyrau pur gywir ichwi o werthiant y rhifyn cyntaf.

Dull gwerthu	Nifer a werthwyd
O ddrws i ddrws	2204
Mannau busnes y fro	33
Mannau busnes tu allan	74
Trwy law unigolion	94
Amrywiol	30
CYFANSWM	2435

LLYTHYRAU

YSGOL FEITHRIN I BAPURAU BRO!

Annwyl Syr,

Llongyfarchiadau gwresog ar enedigaeth y babi diweddaraf — coeliaid swmpus sy'n siwr o dyfu i fod yn fawr iawn ei ddylanwad yn holl blwyfi'r ardal ac ymhellach. Gwn y caiff fagwraeth dyner, ofalus gan rieni a chyfeillion sy'n sicr o fynnu iddo'r holl lwyddiant a haedda.

'Roeddwn i yn yr Ysbyty Famaeth — Gwasg Gwynedd — ar y prynhawn y gwelodd y babi hwn olau dydd am y tro cyntaf. Cafodd gymaint o barch a phe tae'n blentyn newydd anedig i arglwydd! Credwch fi, 'roedd y dwylo crynedig a'i golchai ac a'i gwisgai yno ar ei "wely" gwydr mor ofalus a balch ohono a phe tae'n Beaverbrook neu'n geglyn o linach Thomson. I brofi hynny, rhoddwyd dalen o gomic yn ei gôl pan oedd ond dwyawr oed!

Heb air o gelwydd, mae'n cymharu'n ffafriol **iawn** *â'r holl fabanod tebyg a anwyd hyd yma mewn ardaloedd eraill o Gymru. Ei ben yw'r unig ran goch ohono! Hei lwc y caiff y derbyniad a haedda a digon o fwyd a dillad i'w helpu i dyfu'n ddylanwad iach trwy'r holl fro.*

Mi wn i o brofiad fod magu babis fel yr Eco'n waith anodd. A gaf fi awgrymu, felly, bod Ysgol Feithrin (er arbed Tacs, galwch hi'n Swyddfa) yn cael ei hagor i'r plentyn yma, Lleu a Llais Ogwan (ac eraill yn ôl rhai argoelion) mewn man canolog fel tre Caernarfon? Rhywle y gall y cyhoedd caredig alw..... i roi tro .....i gynnig bwyd a dillad.....ac anrhegion penblwyddi.

Pwy a ŵyr, efallai yr ysgoga hyn eraill eto i blanta.

Lynn Owen-Rees,
Talybont,
Bangor.

POENI AM BLANT CWM

18 Fleece Road,
Long Ditton,
Surbiton,
Surrey.

Annwyl Syr,

Dymunaf i ddechrau lwyddiant mawr i "Eco'r Wyddfa" 'Rwyf wedi gadael Cwm y Glo, yr "Hen Gwm", ers 38 mlynedd. Mynd hefo'r "Welsh Guards" wnes i. Mab ydwyf i Mr. Robert Williams gynt o 7 New Street. 'Bob Bertha' oedd fy nhad yn cael ei alw, ac mae mam yn byw yn Cwm o hyd yn yr hen dŷ.

Mae yna un peth mawr yn fy nychryn i pan fyddaf yn dod adref a hynny yw gweld plant bach yn cerdded o Ddolafon i Ysgol Cwm a dim pafin iddynt gerdded arno, a'r holl beiriannau mawr yn gwibio yn eu hymyl. A oes rhywbeth yn cael ei wneud, neu rywun yn edrych i mewn i'r broblem?

Eto, ga'i ddiolch yn fawr iawn ichwi i gyd am "Eco'r Wyddfa". Gobeithio yr ewch o "nerth i nerth".

Yn gywir,
Owen Wyn Williams

HOGIA'R "VELINHELI"

Annwyl Syr,

Yn y rhifyn diwethaf o "Eco'r Wyddfa" ymddangosodd darlun o'r hen ager-beiriant, Y Velinheli, a arferai dynnu llwythi yn chwarel Dinorwig.

'Roeddwn yn eithaf cybyddus a phedwar o'r rhai sydd yn y darlun, a nodaf eu henwau fel yr ymddangosant o'r chwith i'r dde, gan obeithio y bydd eraill o ddarllenwyr yr "Eco" hefo gwybodaeth am y rhai nas enwir gennyf.

Rhif 2 : Mr. William Robinson, Brynrefail. Fforddoliwr (Platelayer) ar y ffordd haearn Padarn.
Rhif 4 : Mr. William Davies, Llanberis. Gyrrwr dros ben (Extra Driver).
Rhif 5 : Mr. J. R. Jones, Llanberis. Oriawr ac Ystoriwr (Timekeeper and Storekeeper). Wedi dechrau pan yn fachgen un mlwydd ar bymtheg fel oriawr ar y criw yn torri sylfaen Iard Gilfach Ddu.
Rhif 6 : Mr. William Llywelyn Jones, Deiniolen. Turniwr (Turner)
Rhif 8 : Mr. Howel Davies, Llanberis, gyrrwr yr injian.

Yr eiddoch yn gywir,
T.H.Morris,
16 Ffordd De Segontium,
Caernarfon.

Gallwn ragweld fod rhif 2 o gwmpas y ffigwr hefyd. Daliwch ati i'w brynu — ond yn bwysicach fyth, daliwch ati i'w ddarllen!

Os gwyddoch am unrhyw un neu rai sy'n methu â chael copi'n fisol, dowch i gysylltiad ag unrhyw un o'r swyddogion.

Gwyddom hefyd am rai Cymry Cymraeg yn yr ardal sydd wedi gwrthod prynu Eco'r Wyddfa — am resymau annheg a gwamal, a dweud y lleiaf. Ceisiwch chi eu darbwyllo. Ellwch chi ddim blasu a mwynhau 'india roc' heb gael tamaid i'w brofi yn gyntaf, 'na fedrwch?

CWM-Y-GLO

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Arwel Jones, 4 Bryn Hyfryd Terrace, myfyriwr yng Ngholeg Technegol Bangor. Mewn seremoni ar Fawrth 29ain derbyniodd dystysgrif "Ordinary National Diploma in Science" fel y myfyriwr gorau yn ei bwnc.

DYMUNIADAU

Dymunwn wellhad buan i Mrs. Megan Olwen Jones, 21 Dolafon, a Mr. Richard Jones, 11 Dolafon. Bu'r ddau yn yr ysbyty.

Dymunir adferiad buan hefyd i Mr. E. Jones, y prifathro. Bu gartref am bythefnos cyn y gwyliau.

FFŴL EBRILL

Ymaith y ddedfryd angau
Fu'n hofran dros y fro,
A rhyfedd wyrth ddigwyddodd,
Rhoed sylw i Gwm'glo.

'Rôl dadlau brwd ac erfyn
Am flwyddi bron cyn co'
Dechreuwyd adeiladu
Ym mhentref bach Cwm'glo.

Diddymwyd y tai gwyliau
Deneuodd werin bro,
Daeth siawns i'r ifanc eto
Gartrefu yng Nghwm'glo.

Yn sgîl y tai caed neuadd,
A bellach dan ei tho
Daeth mwyniant a diwylliant
Fel cynt i Gwm-y-Glo.

O!'r siom ar ôl y deffro,
Teimlais anobaith dro —
Ar Ebrill un peth oeddwn
"Ffŵl Ebrill" Cwm-y-Glo.

Anfonwch newyddion Cwm-y-Glo i Leslie Larsen, Llygad yr Haul, Penisarwaun. Ffôn : Llanberis 533.

Gwesty Dolbadarn

Tŷ Rhydd-Feddiant

Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog Aneuryn Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol

LLANRUG

PRIFATHRO NEWYDD YSGOL Y FAENOL

Mr. Geraint Huws Roberts a ddewiswyd yn Brifathro i Ysgol Gynradd y Faenol. Y mae Mr. Roberts yn enedigol o Lanrug, yn fab i Mrs. J. Huws Roberts, Park Villa. Addysgwyd Mr. Roberts yn hen Ysgol Ramadeg Brynrefail a'r Coleg Normal Bangor. Cafodd brofiad eang ac amrywiol iawn fel athro. Bu'n dysgu yn ei ysgol gyntaf yn Lerpwl am naw mlynedd. Oddi yno aeth i'r Yswistir lle bu'n athro Saesneg am ddwy flynedd. Yn ddiweddarach, dychwelodd i Gymru ar ei benodiad yn athro Cymraeg yn Ysgol Daniel Owen, yr Wyddgrug. Wedi tair blynedd yno, penodwyd ef yn Brifathro Ysgol Gynradd Llanferes ger yr Wyddgrug, ac y mae yn y swydd hon ers dros wyth mlynedd. Bydd yn dechrau ar ei waith yn Ysgol y Faenol ddiwedd Ebrill. Dymuna trigolion ardal Llanrug bob bendith i Mr. Roberts a'r teulu yn y **dyfodol.**



CYMDEITHAS CHWIORYDD

Nos Iau, Ebrill 1af, cafwyd noson goffi dan nawdd Cymdeithas Chwiorydd Capel Mawr. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs. M. Evans, Lloc. Anfonwyd cofion at y chwiorydd sy'n wael. Rhoddwyd y coffi gan Miss L.M.Hughes, Bryn Moelyn, Mrs. J. Parry, Morawel, a Miss M.G.Roberts, Bryn Moelyn. Diolchwyd iddynt gan Mrs. W.O.Roberts, y Llywydd. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fai 6.

Croesawyd Nyrs Catherine Lovatt, Brwynog, adref am wyliau o Canada. Balch oeddym o'i gweld yn edrych mor dda.

UNDEB Y MAMAU

Agorwyd y cyfarfod gan y Rheithor a llywyddwyd gan Mrs. Williams, y Rheior. Y wraig wadd oedd Mrs. Bayley Hughes, Llangefni. Diolchwyd iddi gan Mrs. Pierce, Glanrafon. Gwnaed y te gan Mrs. Spratt a Miss A.C.Jones, Glanllyn, a Mrs. Pierce, Glanrafon. Diolchwyd iddynt gan Miss Roberts, Y Fron.

NOSON GOFFI

Gwnaed elw sylweddol o'r Noson Goffi a gynhaliwyd yn ddiweddar er budd Canolfan Pendalar (Segontium). Cyflwynwyd o'r Noson Goffi yma a Noson Goffi Cwm y Glo siec o £100 i'r Ganolfan.

Y CYMUN BENDIGAID

Nos Iau, Ebrill 15, daeth cynulleidfa dda o Eglwysi Efengylaidd y cylch i oedfa yng Nghapel Tanycoed pryd y gweinyddwyd yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd o dan arweiniad y Parch. W.R.Williams, Y Felinheli. Cynorthwywyd gan y Parch. W.O.Roberts, Llanrug, a Mr. Glyn Owen, Pontrhythallt. Wrth yr organ yr oedd Mrs. Meirion Hughes, 'Rallt Deg.

Y BAND

Yn y cyfarfod blynyddol codwyd y rhain i swyddi : F.E. Boylin (Arweinydd y Band); O.T.Jones, Bro Rhythallt (Dirprwy Arweinydd); R.O.Jones, 4 Minffordd Terrace (Trysorydd); N. Thomas (Ysgrifennydd); Charles W. Jones (Cadeirydd); Clifford Williams (Is-Gadeirydd); Mrs. Myfi Roberts, Plastirion Terrace (Ysg. y Wasg).

Yn yr un cyfarfod diolchwyd i Gareth Jones, Waunfawr, a Mrs. Catherine Roberts am eu gwaith yn y gorffennol, y naill fel Trysorydd a'r llall fel is-Ysgrifennydd.

MERCHED Y WAWR

Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn y Sefydliad Coffa ar y 13eg o Ebrill gyda Mrs. M. Evans, Lloc, yn y gadair. Sgwrsiodd Dr. E. Gwynn amdani hi a'i gŵr yn gadael Llundain yn 1950 i ffermio yn Eifionydd ac am bwysigrwydd amaethu doeth i barhad gwareiddiad. Diolchwyd gan Phyllis Ellis.

Dewiswyd Mrs. M. Lloyd Williams a Mrs. Margaret Jones yn gynrychiolwyr i'r gynhadledd yn Aberystwyth ym mis Mai.

Llongyfarchwyd Mrs. Ann Lloyd Griffith, ysgrifennydd, ar enedigaeth merch.

PWYLLGOR MERCHED Y BAND

Ar Fai 8fed cynhelir Ffair Sborion yn 'Feed My Lambs', Caernarfon o 1.30 hyd 4.00 er mwyn codi arian i helpu talu am offerynnau newydd i'r Band. Bydd y Pwyllgor yn falch o dderbyn sborion at y ffair. Gellir eu gadael gyda Joyce Jones, 2 Bryn Fedwen, Ffordd yr Orsaf neu hefo Margaret Jones, Dwyros. Os nad yw hyn yn gyfleus gellir trefnu i gasglu unrhyw gyfraniad i'r Ffair.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs. Jacques, 54 Glanffynnon, ar enedigaeth merch – Sioned Eleri.

Ar 14eg o Fai bydd Mr. a Mrs. G. Cadwaladr, 50 Glanffynnon, yn dathlu eu priodas arian. Ein llongyfarchiadau iddynt.

PLAID CYMRU

Perfformiwyd 'Dedwydd Briodas' gan Gwmni Drama Llanberis dan nawdd y gangen leol yn Neuadd Ysgol Brynrefail ar y 31ain o Fawrth. Cyflwynwyd y cwmni gan Gwyndaf Jones a diolchwyd gan Phyllis Ellis.

DIOLCH

Dymuna Mrs. Nancy Jones, Madryn, Llanrug gydnabod a diolch am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati yn ei salwch diweddar gan aelodau'r teulu, cymdogion a ffrindiau.

ETHOLIAD CYNGOR ARFON

J. O. WILLIAMS
B.Sc. (Eng.) Llundain., D.L.C.
F.I.C.E., F.I.Struct. E.
(ANNIBYNNOL)

Ty'n y Coed,
Llanrug.

Bûm yn gyflogedig yng ngwasanaeth llywodraeth leol am bron 30 mlynedd gan gynnwys addysgu fel Darlithydd yng Ngholeg Loughborough a Darlithydd Hŷn yng Ngholeg Technegol Lerpwl. Am weddill y blynyddoedd bûm yng ngwasanaeth gwahanol Awdurdodau Cyhoeddus yn y rhanbarth yma. Yr wyf yn awr yn gweithio fel Peiriannydd Sifil gyda Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan Dinorwig.

Fel Rheolwr a Pheiriannydd Bwrdd Dŵr Eryri bûm yn gyfrifol am ddarparu cynllun cynhwysfawr i gael cyflenwad dŵr i gyfarfod holl anghenion presennol a dyfodol yr ardal.

Carwn grybwyll beth yr wyf yn ei ystyried yn angenrheidiol mewn llywodraeth leol fodern, sef dynesiad pendant, galluog ac ymarferol yn rhydd oddi wrth ragfarn parti politicaidd ac yn ogystal yn rhydd oddi wrth feirniadaeth anwybodol.

Mae'n amhosibl i mi ymweld â phob pleidleisiwr cyn yr etholiad ond pe gwelech yn dda i'm hethol ceisiaf gynorthwyo unrhyw berson gyda phroblem a gyfyd ynglŷn â Chyngor Arfon.

O

Anfonwch newyddion Llanrug i Leslie Larsen, Llygad yr Haul, Penisarwaun. Ffôn : Llanberis 533.

GWYNDAF JONES
(PLAID CYMRU)



60, Glanffynnon,
Llanrug.
Caernarfon 4669

'Rwyf i a'm teulu yn byw yn Llanrug ers pedair blynedd. Mab i chwarelwr ydwyf a bûm innau'n brentis yn y Chwarel cyn symud i'm gwaith presennol fel Swyddog Diogelwch y Ffyrdd efo'r Cyngor Sir.

Rwy'n gysylltiedig â llywodraeth leol yn fy ngwaith dyddiol ac hefyd yn Glerc Cyngor Cymuned Llanrug. Credaf fod y profiad yma'n werthfawr i un sy'n cynnig gwasanaethu'r pentref ymhellach ar Gyngor Arfon.

Safaf dros Blaid Cymru oherwydd credaf mai trwy gefnogi'r blaid hon y medrwn greu'r gymdeithas "decach" y gweithiodd ein tadau gymaint i'w cheisio.

Pe'm hetholid, dyma rai o'r prif bethau a geisiwn :

Sicrhau na fydd oedi ynglŷn â chodi'r tai henoed, tai cyngor newydd a'r cyfleusterau cyhoeddus.

Ynghyd â chynghorwyr y fro, pwyso am Ffatri Feithrin.

Cynyddu'r grantiau i wella tai cyngor.

Codi canolfan gymdeithasol i'r pentref.

Yn anad dim, fy unig uchelgais yw gwneud fy ngorau i wasanaethu pawb o'r pentrefwyr.

GWILYM JONES
Monumental Works
LLANRUG
FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFFTWYR LLEOL

LLANBERIS

CYMDEITHAS LENYDDOL EGLWYSI M.C.

Ddechrau'r mis hwn cyfarfu'r Pwyllgor newydd i drefnu rhaglen am y gaeaf nesaf. Etholwyd y swyddogion canlynol : Llywydd : John Owen; Is-Lywydd : William Jones, Ffordd Padarn; Ysgrifennydd : Mrs. Dilys Bayliss, Meirionfa; Trysorydd : John Davies, 6 Rhes Efrog.

Mrs. ANNIE ROBERTS

Pan fu farw Mrs. Roberts wedi dwy flynedd o gystudd, fe gollodd y pentref gymeriad arbennig. 'Roedd ganddi bersonoliaeth mor hyfryd. Amddifadwyd Eglwys Nant Padarn o'i doniau a'i gwasanaeth. Y teulu fydd yn teimlo fwyaf o'r golled rhy gynnar hon, ac estynnwn ein cydymdeimlad â'i phriod a'i merch, a hefyd â'i mam a'i brawd.

Y GROGLITH

Cynhaliwyd Gwasanaeth y Cymun ar fore'r Groglith yng Nghapel Coch o dan nawdd y Cyngor Eglwysi. 'Roedd y gwasanaeth yng ngofal John Owen, yn cael ei gynorthwyo gan Mr. Huw Peris Pritchard. Mrs. B. Rees Evans a wasanaethai wrth yr organ. Gwnaed Casgliad at Gymorth Cristnogol.

AELWYD YR URDD

Gwnaed elw anrhydeddus yn y Disco a gynhaliwyd ddiwedd y mis diwethaf. 'Roedd y trefniadau yng ngofal Ann Evans a Mona Lewis. Daeth y tymor i ben gyda Disco yn Yr Erw Fair. Llongyferchir y tîm pêl-droed ar gyrraedd y rownd derfynol yng Nghwpan Pantyfedwen am y tro cyntaf erioed yn hanes Yr Aelwyd. Bydd Yr Aelwyd yn cyfarfod yng Nghapel Coch y tymor nesaf. Bydd Pwyllgor yn cael ei godi i drefnu rhaglen yr un noson ag y dangosir ffilm newydd Yr Urdd ym Mhreswylfa am 8, nos Wener, 30 Ebrill 1976.

DYMUNIADAU

Dymunwn adferiad buan i'r canlynol ar ôl eu gwaeledd. Dyma'r enwau a dderbyniwyd i law. Os oes mwy wedi bod yn wael yn ddiweddar, mae ein dymuniadau yn mynd iddynt hwythau yn naturiol. Mr. Robert Griffith, Stryd Charlotte; Mr. John Hughes, Maes Llwyn; Miss Gwyneth Jones, Swyddfa'r Post; Mr. Emyr Thomas, Maes Padarn; Mrs. Hugh Peris Pritchard, Dinorwic House; Mrs. William Jones, Victoria Terrace; Mrs. J. Bayliss, Llys Meirion; Mrs. Enid C. Hughes, Stryd Charlotte; Mrs. E. Owen, Tŷ'r Ysgol; Mr. Jones, Banc y Midland; Mr. Richard Bleddyn Jones; Mr. John Owen, St. Capel Coch; Mr. Emrys Griffith, Stryd Snowdon; Mr. George Parry, Stryd Turner; Mr. Hugh Pritchard, Stryd Turner; Miss Margaret Rees Jones, London House.

CHRISTOPHER WEST

Ordeiniwyd Christopher, mab Mr. a Mrs. Anthony West, 39 Stryd Fawr, yn Weinidog gyda Cymuned Gristnogol ym Mhrydain ym mis Mawrth. Bydd yn gweithio ym Merlin am rhyw ddwy flynedd, yna o bosibl yn yr Unol Daleithiau. Dymuniadau gorau'r ardal iddo.

CODI CWESTIWN

Trefnwyd noson gan y gangen leol o Blaid Cymru i bentrefwyr Llanberis gael y cyfle i ofyn cwestiynau i banel o arbenigwyr. Aelodau'r panel oedd Mr. Dafydd Wigley, A.S., Y Cynghorydd Trefor Wyn Williams a Mr. Selyf A. Hughes, Cyn-Gadeirydd y Cyngor Cymdeithas. Cadeirydd y noson oedd Mr. Islwyn Jones, Clerc y Cyngor Cymdeithas.

PERSONOL

Dymuna Mrs. E. Owen, Tŷ'r Ysgol, Llanberis, ddiolch i'r perthnasau, cymdogion a ffrindiau am eu dymuniadau da, cardiau ac anrhegion tra bu yn yr ysbyty.

Y GYMDEITHAS DDRAMA

Bu'r trip blynyddol i Lerpwl ddydd Sadwrn diwethaf. Cafwyd cyfle y tro hwn i weld comedi fywiog, "Move Over Mrs. Markham" yn cael ei pherfformio yn ardderchog gan Gwmni'r Playhouse. Bydd y tymor newydd yn dechrau ar nos Fercher, Medi 1, 1976 am 7 o'r gloch yn festri Preswylfa. Gobeithir castio ar gyfer y perfformiad blynyddol yn y cyfarfod hwn.

SEFYDLIAD Y MERCHED

Cynhaliwyd cyfarfod o Sefydliad y Merched yn y Ganolfan Gymdeithasol ddiwedd Mawrth a llywyddwyd gan Mrs. Nancy Jones. Dymunwyd adferiad buan i'r aelodau oedd wedi bod yn wael gartref ac yn yr ysbyty, a rhoddwyd croeso cynnes iawn i aelod newydd, sef Mrs. Eunice Roberts. Treuliwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni cynrychiolwyr Antur Aelhaearn, Llanaelhaearn. Cawsom sgwrs ddiddorol ynghyd â ffilmiau ac arddangosfa o'r gwaith cywrain sydd yn cael ei wneud yno. Diolchwyd iddynt gan Mrs. Robert Morris. Y gwesteion oedd Mrs. R. Lloyd Jones, Mrs. Enid Owen, Mrs. Doris Roberts, Mrs. Delyth Hughes, Mrs. Milly Owen, Miss Margaret Owen a Mrs. Olwena Morris. Diolchwyd iddynt gan Mrs. A. Wilson Jones.

Anfonwch newyddion Llanberis i'r Parch. John Owen, Bron y Graig, Llanberis. Ffôn : 388.

Cofiwch alw yn

SIOP POB DIM

G.E. & M. JONES
(GER YSGOL BRYNREFAIL LLANRUG)
AR AGOR
LLUN – GWENER
8.30 am – 8.30 pm
DYDD SADWRN
10.00 am – 8.30 pm
DYDD SUL
11.30 am – 1.00 pm
7.00 – 8.00 pm
Oriau cyfleus i bawb!



Y LLYFRGELL YN Y CYLCH

Bydd gwasanaeth y llyfrgell o ddiddordeb neilltuol i bobl Llanberis gan fod dau o staff Llyfrgell Arfon/Dwyfor yn byw yn y pentref hwnnw. Cyfeiriwn at Miss Eirian Lewis (un a gyflogir dan y "Cynllun Creu Gwaith") a Mr. I. Bert Parry a benodwyd i swydd sy'n delio â'r adran ddosbarthu yn y Rhanbarth hwn o Lyfrgell y Sir.

Faint o drigolion y fro, ysgwn i, sydd yn gyfarwydd â gweld fen fawr lwyd yn llawn o lyfrau yn teithio drwy Lanberis a'r cylch? Fel ymgais i ddwyn y Llyfrgell yn nes at y bobl daw'r fen hon i'r ardal unwaith bob wythnos, gyda digon o ddewis o wahanol fathau o lyfrau, yn Gymraeg a Saesneg, nofelau a llyfrau ffeithiol, llyfrau i oedolion ac i blant.

Bydd y fen yn galw dydd Llun un wythnos yn y pentrefi canlynol ac ar yr amserau a nodir:

Nant Peris (Tai Cyngor)	9.50-10.20
Cwm y Glo (Capel)	10.45-11.05
Cwm y Glo (Dolafon)	11.10-11.25
Tan y Gaer (Groesffordd)	11.30-11.40
Waun (Rhes Arthur)	11.45-12.05
Penisarwaun(Bryntirion)	12.10-12.40
Brynrefail (Trem Eilian)	1.55-2.10
Brynrefail (Y Bont)	2.15-2.40
Llanrug (Pontrhythallt)	2.55-3.25
Llanrug (Capel Hermon)	3.30-3.55
Llanrug (Post)	4.00-4.20
Llanrug (Glyntwrog)	4.25-4.45

a'r wythnos wedyn ar y dydd Iau yn :

Tanycoed (Capel)	1.55-2.15
Bryn Bras	2.20-2.40
Bethel (Ysgol)	2.55-3.30
Bethel (Capel)	3.35-4.10
Bethel (Neuadd)	4.15-4.35
Bethel (Penrhos)	4.40-5.00

Gwasanaeth pwysig arall gan y Llyfrgell i bobl y fro ydy honno i'r bobl fethedig a'r unig. Gall unrhyw berson sy'n gaeth i'w gartref ac yn unig oherwydd afiechyd neu sy'n annalluog i fynd i'r Llyfrgell Deithiol neu i'r Gangen leol yn Llanberis, ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, pryd y daw cynorthwywr o'r Llyfrgell a detholiad o lyfrau yn uniongyrchol i'r cartref. Fel mater o ddiddordeb, Mr. Bert Parry – gŵr o Lanberis – fydd yn dod o amgylch. Gwasanaeth sy'n dwyn llawer o foddhad ydy hwn – nid yn unig i'r person methedig ond hefyd i'r aelod o staff, ac y mae ynddo elfen gymdeithasol gref.

Manteisia ysgolion yr ardal hefyd ar y gwasanaeth arbennig a drefnir ar eu cyfer. Yn ogystal â'r llyfrau, cynigir gwasanaeth o ddarluniau i Ysgol Sir Brynrefail, fel y gall y disgyblion ddod i adnabod a gwerthfawrogi gwaith arlunwyr mawr y byd – yn hen a modern.

Diwedd Gorffennaf y flwyddyn ddiwethaf, gwireddwyd breuddwyd Llyfrgellydd Llyfrgell Sir Gaernarfon pan agorwyd drysau'r Gangen newydd yn Ffordd Capel Coch, Llanberis. Mawr fu'r disgwyl am hon. Adeilad newydd sbon, wedi ei gynllunio'n bwrpasol at wasanaeth Llyfrgell. Mae croeso yn eich aros yno gan Mrs. Gwyneth Williams, Eirianfa, Llanberis – ein Llyfrgellydd. Mae yn y Gangen lyfr at ddant pawb – o'r ieuengaf hyd yr hynaf – a bydd Mrs. Williams ond yn rhy falch o roi cymorth i chwi. Dau beth newydd ynddi o'i chymharu a'r hen gangen yn y Stryd Fawr ydy'r gornel arbennig i'r plant gyda llyfrau yno i ddiddori'r babanod a lle hefyd i'r plant hynaf astudio llyfrau yn ymwneud a'u gwaith ysgol. Hefyd neilltuwyd rhan o'r adeilad ar gyfer yr adran ymchwil a chylchgronau ac yma gellwch dreulio amser yn hamddena a darllen. Dewch draw yno, os nad ydych yn aelod eisoes, i chwi gael eich dal gan gyfaredd y lle a'ch swyno gan y stoc helaeth o lyfrau o bob math – casgliad eang o lyfrau Cymraeg, nofelau Saesneg chwaethus, a llyfrau ffeithiol ar amryw o bynciau. Hefyd, mae yn y Gangen gyflenwad o lyfrau print bras i'r rhai hynny ohonom sydd a'n llygaid yn gwanhau, ac yn gwneud darllen yn dipyn o dasg. Oriau agor y llyfrgell yw :

Dydd Llun	**4.30 – 7.30**
Dydd Mawrth	**4.30 – 7.30**
Dydd Mercher	**2.00 – 4.30**
Dydd Gwener	**10.00 – 12.30**
	2.00 – 6.00

NANT PERIS

LLWYDDIANT

Llongyfarchiadau calonnog iawn i Alwyn ac Elwyn Searell Jones, Dwyfor, a David John Pritchard, Llys Awel, ar eu llwyddiant yn yr Arholiad Sirol. Bydd y tri yn cael eu gwobrwyo mewn Cyfarfod Misol arbennig ym Methesda yn ystod mis Mai.

GWYLIAU'R PASG

Daeth gwyliau cyntaf y gwanwyn unwaith eto, a phriodol iawn fyddai disgrifio'r ŵyl fel Gŵyl Pebyll yn y Nant. Yr oedd lliwiau llachar y pebyll yn taro llygad pawb bob cam o'r Gromlech i lawr i'r Nant.

GWANWYN

Yn fwy diweddar nag arfer y clywsom ddeunod y gog yn y Nant. Dydd Gwener, Ebrill 23. Efallai mai ias gwyn a'i cadwodd yn ddistaw cyhyd.

COLLED

Dyna fydd ymadawiad Mrs. M. W. Humphreys, Bro Glyder, pan fydd yn gadael y Nant i fyw yn Llanberis ar ôl treulio dros 60 mlynedd yma. Yr ydym yn hen gyfarwydd â cholli ein pobl ifanc am nad oes dim darpariaeth ar eu cyfer. Yn awr dyma ni'n colli ein hoedolion am nad oes yma dai hwylus bychain ar eu cyfer. Onid gwell fuasai adeiladu ychydig dai ar gyfer yr henoed ym mhob ardal yn hytrach na gorfodi'r henoed i adael eu cynefin ac ail ddechrau mewn ardal newydd?

Bydd colled i Gapel Rehoboth yn ymadawiad y chwaer yma lle y bu yn aelod ffyddlon i holl gyfarfodydd yr Eglwys ac mae ffyddlondeb yn rhinwedd prin iawn y dyddiau hyn.

BABI NEWYDD

Yn ystod y mis agorwyd y llwybr troed a'r bompren yng nghanol y pentref. I wneud y llwybr rhaid fu torri'r pymtheg coeden fasarn a fu'n rhan o harddwch y pentref cyhyd. Fe'u plannwyd 150 o flynyddoedd yn ôl pan adeiladwyd y ffordd bresennol, ac o dan y coed hyn y cynhaliwyd y Ffair enwog, – Ffair Nant. Nid yw'r briodas rhwng y ddwy bont wedi bod yn un hapus iawn, ac mae'r pentrefwyr yn methu â dygymod â rhyw erthyl o bompren wrth ochr y bont gerrig gadarn.

Fel hyn y canodd Mr. Elfed Thomas pan agorwyd y bont yn ddi-seremoni yr wythnos ddiwethaf.

BONT BARICS

Bont Barics! Bont Barics! rwy'n synnu
Dy fod wedi esgor mor hen
Ar bompren afluniaidd, asennog,
Heb boen ar dy wyneb na gwên.

Beth oedd ar dy feddwl, Bont Barics
Yn goddef camwri fel hwn?
Ai syrthio i drymgwsg a wnaethost,
A deffro yn feichiog a chrwn?

Un peth rwy'n sicr ohono,
Fe'th grewyd yn rhad a di-stŵr;
'Doedd neb yn poeni amdanat
Ond mynydd, gweirglodd a dŵr.

Anghofia'r presennol, Bont Barics,
Mae Searell a Wil wrth dy gefn;
Tra byddant yn stelcian a sgwrsio
Bydd gobaith am sylwedd a threfn.

E.T.

ARWAIN CYMANFA

Dydd Sul nesaf (Mai 2) cynhelir Cymanfa Dosbarth Llanberis yng Nghapel Coch. Arweinydd y gân fydd Thomas John Roberts, Llys Awel. Dechreuir y cyfarfodydd am 2 a 5.30.

AR Y RADIO

J.W.Ellis (Perisfab) fydd gwestai Meirion Edwards yn y Rhaglen "Hyd yma" fore Sul nesaf, Mai 2, am 11.45 ar Radio 4 (Cymru). Yn y rhaglen bydd yn sôn am y dylanwadau sydd wedi ei helpu i ffurfio ei weledigaeth ysbrydol o fywyd.

Anfonwch newyddion Nant Peris i T.J.Roberts, Llys Awel.

TREFNIADAU'R MEDDYG
CADWCH Y NODIADAU YMA ER GWYBODAETH

Y Meddyg D.R. Hughes **Y Meddyg O.P.Jones**
Y Meddyg Pamela Jones

SYLWER. O'r 1af o Fai 1976 gwelir cleifion drwy drefniant yn unig. Os am ymgynghori â meddyg trefnir dyddiad ac amser pendant. Gwelir ACHOSION BRYS DILYS yn ystod oriau'r feddygfa heb drefniant.

Bydd system drefniant yn gweithredu ym meddygfa LLANBERIS YN UNIG. Bydd oriau'r feddygfa fel a ganlyn :

Llun – Gwener : 9.30 a.m. – 10.30 a.m.
4.30 p.m. – 6.00 p.m.

ag eithrio nos Fercher, dim meddygfa

Yn ychwanegol pnawn Mawrth a Gwener 2.30p.m. – 4.00 p.m. Bore Sadwrn (ACHOSION BRYS YN UNIG) 9.30 a.m. – 10.30 a.m. Mae meddygfa'r nos ar gyfer y rhai sy'n gweithio, neu'r rhai sy'n anabl i ddod yn y bore neu'r pnawn.

Sut i wneud trefniant

Galw yn y feddygfa i weld y croesawydd neu alw ar y ffôn rhwng 9.00 a.m. a 4.00 p.m. (Llanberis 634). **neu** drwy lythyr ac amgau amlen wedi ei chyfeirio a'i stampio i gael atebiad.

Ymweliadau â'ch cartref

Cleifion sydd yn rhy wael i ddod i'r feddygfa, galwer Llanberis 634. Rhaid gwneud pob galwad am ymweliad â'r cartref cyn 10 a.m. ac eithrio achosion difrifol iawn. Bydd ail gyflenwad rhagnodiad (prescription) i'w cael gan y croesawydd (heb drefniant) yn ystod oriau'r feddygfa.

ACHOSION BRYS. Galwch Llanberis 634

Cyfarwyddyd Cofiwch nodi wrth drefnu cyfweliad os ydyw i fwy nag un claf, neu os yn debyg o gymeryd mwy o amser nag arfer. Rhoddwch eich enw a chyfeiriad llawn. Os ydych yn anabl i gadw'r trefniant, galwch ni ar y ffôn os gwelwch yn dda, (Llanberis 634), mor fuan ag sydd bosibl fel y gallwn weld rhywun arall yn eich lle. Os byddwch yn hwyr am eich cyfweliad efallai y bydd rhaid trefnu dyddiad arall.

Canghennau o'r feddygfa. Hoffem i chwi nodi newid yn yr oriau ond ni fydd trefniant hefo'r rhain.

Llanrug	**Mawrth**	**4.30pm – 6.00 pm**
	Gwener	**9.30 am – 12.00 hanner dydd**
Deiniolen	**Llun**	**2.30pm – 6.00 pm**
	Iau	**4.00pm – 6.00 pm**

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO .....

Eric Morris

Arvonia Coaches
LLANRUG
FFÔN WAUNFAWR 254

Bwriadu Priodi?

NEU UNRHYW ACHLYSUR ARALL BYTHGOFIADWY

AM LUNIAU LLIW NEU DDU A GWYN

DENNIS A. JONES

FFOTOGRAFFYDD

Denfor, 1 Stad Eryri
Bethel
Ffon Port Dinorwig 711

CANOLFAN TANYBONT

Mae Canolfan Tanybont – clwb newydd trwyddedig yng Nghaernarfon sy'n agor diwedd y flwyddyn yn chwilio am berson gyda chydymdeimlad â phethau Cymraeg i'w redeg. Am fanylion, cysylltwch a Mrs. Eleri Higgins, Bryn Beddau, Bontnewydd, Gwynedd.

STORFA
Mace
S.&E. Jones
Llanrug

FFÔN: Caernarfon 2790

BLODAU A FFRWYTHAU YW EIN HARBENIGRWYDD

S. JONES

CYFANWERTHWR FFRWYTHAU
(WHOLESALE FRUITERER)
Y STORFA
LLANRUG
FFÔN
CAERNARFON 2790

Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH

Llongyfarchion cynnes i Mrs. Gwen Lloyd Roberts (gynt o Ddinorwig), 10, Afon Rhos, Llanrug ar ei champ yn ennill cystadleuaeth llinell goll gynta' Eco'r Wyddfa. Diolch yn fawr iddi hefyd am droi'r wobr yn ôl tuag at Gronfa Sefydlu Eco'r Wyddfa.

Dim ond un gerdd a dderbyniais ar y testun "Ffŵl Ebrill" Siomedig iawn o gofio i mi gael 238 o linellau coll y mis cynt. Y tymor plannu yn denu'r beirdd i'r gerddi, reit siwr.

Dyma gyfle y mis hwn i gynnwys rhai o'ch cerddi. Mae'r gwanwyn wedi cyrraedd, a chân o groeso iddo a geir gan Mrs. Margaret Ellis, Nant Peris. Croeso i chwithau i'r llannerch Mrs. Ellis.

Y GWANWYN

Mae y stormydd wedi cilio,
Aeth y gaeaf llwm a du,
Fe ddaeth Gwanwyn unwaith eto
I lonni ein bywydau ni.

O! mor hardd yw gweld y Gwanwyn
Unwaith eto'n dod mewn pryd;
Bref yr oenig ar y mynydd,
Sylwi ar bethau tlws y byd.

Gweld y perthi yn eu blodau,
Clywed cwcw yn y llwyn;
O! mor hardd yw wyneb Gwanwyn,
Croeso iti, dymor mwyn.

Cyfaddasiad sydd gan Dafydd Whiteside Thomas o Lanrug – cyfaddasiad o "When God at First" – sef, "Yn y Dechreuad". Da iawn, Dafydd – trowch i mewn eto.

"YN Y DECHREUAD....."
(Cyfaddasiad o 'When God at first...')

Pan luniwyd Dyn gyntaf yng ngweithdy Duw
Fe'i gyrrwyd i Olduvai; yno i fyw;
Mewn dyffryn gwyllt 'roedd yr arbrawf i fod
Yng nghwmni cactus a phroto-camelod
Y genau-goeg cyntaf a mathau o gwn,
A'r archaeo-eliffant yn cadw sŵn.

Bu fyw a bu farw a chladdwyd ei lwch
Dan briddoedd Affrig; droedfeddi o drwch.
Ac yna, fil o flynyddau wedi hyn
Daeth Leakey i'w ganfod, wrtho'i hun
Yn ôl yn y nefoedd aeth Duw i'w gell
I fyfyrio rhagor am fydysawd pell.

'Rwy'n meddwl weithiau amdanaf fy hun
Yn palu yn Olduvai yn chwilio am Ddyn,
(A darganfod yno rhyw asgwrn hen
Un eitha' tebyg i asgwrn fy ngên)
Ac wedi crafu am amser hir
Gael allwedd yno; – wel ar fy ngwir!
Dyna ddilema; fe ddyliwn ei dangos –
Yr allwedd neu'r asgwrn; pa un sydd i aros?

Ac i gloi am y tro dyma gân o foliant i dalentau ardal Llanberis gan Mrs. Vera Rees Hughes. Fe welwch i mi wneud rhai mân newidiadau Mrs. Hughes, ond chwarae teg ichwi fe ofynnoch i mi wneud hynny.

EIN HARDAL NI

Y mae gwŷr a gwragedd dawnus
Yn ein hardal annwyl ni,
Rhai yn medru peintio'n gywrain,
Eraill sydd yn feirdd o fri.

Mi gewch yma ddawnsio gwerin,
A dramâu, ac actio cain,
Clwb pêldroed a Seindorf Arian,
Nid oes neb i guro rhain.

Nid oes angen eiddigeddu
Wrth enwogion byd y 'Pop',
Y mae yn ein plith ni yma
Rai sydd ganmil gwell na'r 'Top'.

Beth am biano meddech chwithau,
Telyn, ffidil neu drombôn,
Oes mae yma rai'n rhagori,
A chyfansoddi ambell dôn.

Caru Cymru, caru'n hardal,
Caru'n hiaith, a be' sy'n fwy,
Peidio byth anghofio'n tadau
Byw yr ydym drwyddynt hwy.

Hwyl i chi yn yr ardd – ond peidiwch ag anghofio troi i mewn i'r Llannerch chwaith.

Pob hwyl,

Selwyn.

Dyma'r rhai sydd yn y llun ar y dudalen ôl, sef tîm pêl droed Llanrug, 1950 - 51. O'r chwith i'r dde : Arfon Jones (Ysg), William Pritchard (Llanrug), Glyn Jones (Bryncir), Ronald Macdonald (Biwmares), Tommy Roberts (Bangor), Bert Jones (Llanrug), Percy Wilson (Llanrug), Is-lywydd; Evan Owen (Penisarwaun), James Hogan (Bangor); Seth Edwards (Bangor); Emyr Jones (Y Felinheli); Stanley Jones (Bangor); Terfel Roberts (Bryncir).

Mae'n ddiddorol sylwi nad oes ond dau o'r tîm yn dod o Lanrug, a hynny chwarter canrif yn ôl.

DINORWIG

YN YR YSBYTY

Dymunir gwellhad buan buan i Mr. John D. Williams, Ty'n Fawnog Uchaf, sydd yn Ysbyty Abergele, hefyd i Mrs. Betty Lloyd Roberts, 11 Maes Eilian, yn Ysbyty Môn ac Arfon.

COLLI CWMNIAETH

Chwith gennym golli cwmniaeth dros dro Mr. Robert Roberts, Frondeg, ar ei ymadawiad i Lanfairfechan at ei nith a'i gŵr, y Parch. a Mrs. Gwilym Parry. Hefyd Mrs. Mair Jones, 9 Maes Eilian, sydd wedi mynd i Gartref Brwynog, Amlwch. Anfonwn ein cofion atynt.

GWELLA

Da gennym weld fod Mr. Gwilym Davies, 10 Bro Elidir yn gwella ar ôl ei waeledd diweddar.

PRIODI

Estynnwn ein llongyfarchiadau i Miss Mary Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian, ar ei phriodas a Mr. Isfryn Evans, Bryniau Heulog Farm, Penrhosgarnedd, Bangor, yng Nghapel Dinorwig M.C. Ebrill 17eg. Dymunir pob bendith i'r pâr ieuanc yn eu cartref newydd, Bryniau Heulog.

LLONGYFARCH

Llongyferchir Miss Marina Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, ar ei llwyddiant yn ennill gwobr Arholiad Sirol Henaduriaeth M.C. Arfon i rai dan 12 oed. Caiff ei gwobrwyo yn yr Henaduriaeth yn Jerusalem, Bethesda, ar Fai 18fed.

Anfonwch newyddion Dinorwig i Mr. Robert Williams, 4 Tai Caradog, Deiniolen.

BRYN-REFAIL

CLWB YR EFAIL

Nos Fawrth, Ebrill 13eg, cafwyd noson ddiddorol yn y Clwb o dan lywyddiaeth Mr. Griffith Pritchard, Glyn Afon, pryd y croesawyd atom Mr. John Evans (Johnnie'r Yard) a Mr. R.H.Jones o Glwt-y-Bont. Cafwyd sgwrs, adroddiadau ac ambell stori gan Mr. Evans, ac amryw o ganeuon gan R.H. a chyfeiliwyd gan Mrs. Eifiona Jones, Bron Eryri. Rhoddwyd y te gan Mrs. Williams, Glanffrwd, Miss Blodwen Owen, Tai Orwig a Mrs. J. Roberts, Creigle.

CYFARFOD PREGETHU

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Pregethu blynyddol ddydd Gwener y Groglith, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. R. Gwilym Hughes M.A.,B.D., Pwllheli. Yn ystod oedfa'r prynhawn gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd. Llywyddwyd yr oedfaon gan Mr. Islwyn Williams.

PRIODAS

Dydd Sadwrn, Ebrill 17eg, yng Nghapel M.C. Brynrefail gyda'r Parch. G. Angell Jones, Bangor, yn gweinyddu unwyd mewn glân briodas Sister Eirian Jones, merch Mrs. Megan Jones a'r diweddar Mr. D.O.Jones, Greuor Villa, a Mr. John Edwin Taylor, mab Mr. a Mrs. Taylor, 45 Bawing Park Avenue, Lerpwl. Y gwas oedd Mr. Dave Kenyon, Lerpwl, ffrind y priodfab, a'r morynion oedd Miss Margaret Mai Jones a Miss Medwen Jones, chwiorydd y briodferch.

Rhoddwyd y briodferch i'w gŵr gan ei hewythr, Mr. Hefin Closs Parry, B.A., Bryniol. 'Roedd y Wledd Briodas yng Ngwesty Plas Tan Dinas, Llandwrog, lle'r eisteddodd oddeutu trigain o wahoddedigion. Treuliwyd y mis mêl yn moduro, a bwriadant ymgartrefu yn West Kirby. Y mae Eirian yn Sister yn Ysbyty Broadgreen, Lerpwl, a John ar staff y 'Pacific Steam Navigation Co.' Y porthor yn y gwasanaeth oedd Mr. Myrddin Jones. Yr organydd oedd Mrs. Lowri Prys Williams, A.T.C.L., Godre'r Coed. Addurnwyd y capel yn hardd gan Mr. Wyn Griffith, Waunfawr, gynt o'r Llythyrdy, Brynrefail.

CLWB Y MAMAU

Nos Iau, Mawrth 11eg, cafwyd cyfarfod o Glwb y Mamau, a chroesawyd Mr. David Ellis, Gweledfa, i'n plith. Siaradodd Mr. Ellis am ei waith fel Swyddog Prawf yn Sir Fôn. Cynigwyd y diolchiadau gan Mrs. Rhian Jones, Trem Eilian, a rhoddwyd y te gan Mrs. Euronwy Roberts, Trem Eilian a Mrs. Pat Jones, Cae Coch.

Bydd trip siopio i Gaer yn cychwyn o'r pentref am 9 o'r gloch dydd Sadwrn, Mai 1af.

Anfonwch newyddion Brynrefail i Robert Williams, 4 Tai Caradog, Deiniolen.

Y DE
O'N HA

Mae'n amhosibl cynn
T. Rowland Hughes mew
bod fel ardalwyr yn teim
ardal yma a'i chymeriada
nofelau a'i farddoniaeth.

Yn ei Gofiant i T. Rowl
Edward Rees :

**"Bu farw yn chwech a
ei waith llenyddol tynno
roddi clod i'r rhinwedd
Yn ei fywyd ceir stori d
yn aml".**

Diolch i garedigion "Y
cyfraniad T. Rowland Hu



Ar y chwith : Syr Ben Bowen Thomas yn annerch y tu allan i gartref T. Rowland Hughes. Yn y llun hefyd mae Mr. Selwyn Pritchard, arweinydd, a Stephen Roberts a ddadorchuddiodd y gofeb.

Gwaelod chwith : T. Rowland Hughes yn fachgen yn Llanberis gyda'i dad a'i fam, William Rowland Hughes a Mary Hughes a'i chwaer Eironwy.

Isod : T. Rowland Hughes fel Llywydd y Myfyrwyr yng Ngholeg Prifysgol Bangor 1925 – 1926.



VRAF VDURON

droddiad o fywyd a gwaith ur bro o'r math yma, er ein chder tu hwnt o wybod mai'r y symbyliad mawr tu ôl i'w

Hughes dywed y cyn-brifathro

ain wedi cyflawni llawer....Yn rlun o gymdeithas ddewr, gan edai ef mor gadarn ynddynt. a dewrder na cheir ei thebyg

e' yn Llanberis am gydnabod enyddiaeth ein cenedl.

CHWEDLAU'R FRO

gan JOHN OWEN HUWS

'Roedd plwyfi Llanrug, Llanberis a Llanddeiniolen, fel gweddill Eryri, yn arbennig o ofergoelus yn y gorffennol, fel y gellid disgwyl mewn ardal oedd mor unig a diarffordd. Disgrifiodd Evan J. Roberts gyflwr Cwm y Glo yn 1815 fel a ganlyn : "Rhoid pwys mawr ar freuddwydion, a rhoid cred mewn canwyllau corff, ac yn nylanwad cyfrin y Jac y lantern, yr aderyn corff, ci yn udo, ceiliog yn canu ar gamamser a'r cyffelyb. Tybid y darogenid rhywbeth mawr a phwysig drwy'r pethau hyn." Ofnid ysbrydion yn fawr ac oddi fewn i simdde Brynglas, Nant Peris gynt 'roedd croes garreg wedi ei gosod i gadw ysbrydion aflan ymaith.

Credai llawer ym modolaeth gwrachod ac yr oedd gan yr Wyddfa a'r ddwy Glyder enw drwg o fod yn hoff leoedd cyfarfod ganddynt. Erys nifer o chwedlau am wrachod yn yr ardal.

GANTHRIG BWT

Gŵyr pawb am Y Gromlech enwog ym Mwlch Llanberis, ond pwy tybed a glywodd am Ganthrig Bwt a drigai oddi tani? Dywed traddodiad fod plant yr ardal yn diflannu'n llwyr a thybiai'r teuluoedd mai anifeiliaid rheibus oedd yn eu llarpio. Gwyddai pawb am Ganthrig ac fel yr ofnid hi gan y plant ond nid amheuai neb hi o'r anfadwaith. Un dydd, fodd bynnag, canfu ci gwas y Cwmglas law fechan ger Y Gromlech a darganfuwyd mai llaw un o'r plant oedd ar goll ydoedd. Drwgdybiwyd Ganthrig ar unwaith o hudo'r plant i'r Gromlech, eu lladd a'u bwyta. Aethpwyd i'w gwylio a cheisio ei difa a phan aeth un o'r dynion at Y Gromlech clywodd blentyn yn wylo. Galwodd ar Ganthrig i ddod allan, fod ganddo blant iddi ac atebodd hithau y deuai ar ôl trin pen ei phlentyn. Daeth allan cyn bo hir a rhuthrodd y dyn ati a thorri ei phen i ffwrdd â chryman. Dywedir iddi gael ei chladdu yn y Tir Coch, ger Llanberis. Dywed rhai mai gŵr condemniedig oedd y sawl a'i lladdodd ac iddo ennill ei ryddid am ei ddewrder.

PEGI WITS

'Roedd gwrach arall yn byw yn ardal Llanberis gynt, sef Pegi Wits. 'Roedd ei hofn ar bawb drwy'r gymdogaeth a chredid y gallai rwystro pobl rhag symud a hyd yn oed chwalu adeiladau nad oeddynt yn foddhaol ganddi ac nid oedd wiw ei gwrthwynebu. Gallai ffelltithio'r llaeth fel na chorddai byth ac achosi llawer anffawd i ddyn ac anifail. Pan fu farw claddwyd hi dan garreg yng nghysgod simdde fawr ei chartref. Ond hyd yn oed ar ôl ei chladdu arhosodd dylanwad Pegi. Pan fyddai trigolion y tŷ wedi torri pentwr o goed tân a'u gadael ar y garreg i sychu deuai llaw anweledig a'u rhoi ar y tân i gyd. Os mentrai gŵr y tŷ eu tynnu oddi yno, lluchid hwy yn eu holau ar unwaith. Diwedd y coed, yn ddieithriad, fyddai eu llosgi'n ulw.

Methais â chanfod ple'r oedd tŷ Pegi Wits ac os gŵyr un ohonoch, byddwn yn dra diolchgar o gael gwybod gennych. **Os gŵyr un ohonoch fwy am wrachod ardal yr "Eco", beth am yrru pwt i'r golofn "Tewch â Deud"?**

Maes y Merched

A fuoch erioed yn ystyried prynu rhewgell? Fel mae pris bwyd yn codi mae llawer ohonom yn manteisio ar bob cyfle i brynu swmp ar y tro er mwyn cael gostyngiad yn y pris. I wneud hyn yn effeithiol mae'n help mawr cael rhewgell. Darn o offer cymharol ddiweddar yw hwn ac mae'n hynod ddefnyddiol i famau prysur, gwraig tŷ sydd â swydd y tu allan i'r cartref, i rywun sy'n hoffi coginio llawer ar y tro ac yn arbennig i rai sy'n gorfod cadw llygad gofalus iawn ar y geiniog. Mae'n fendith i bawb sy'n tyfu llysiau yn yr ardd ac yn dymuno eu cadw dros y gaeaf.

Dyma ychydig bwyntiau felly ynglŷn â phrynu rhewgell : Peidiwch byth â mynd allan i brynu'r gyntaf a welwch am bris rhesymol o fewn eich cyllid teuluol. O ddarllen taflenni fe welwch fod dau fath o rewgell – y gist neu'r math unionsyth a drws yn agor tuag atoch. Mae'r gist yn cymeryd mwy o arwynebedd llawr ac fe all fod yn anodd cyrraedd at bacedi yn y gwaelodion, ond ar y llaw arall mae'r pris fel arfer 33% yn llai na'r math â drws arno. Hefyd gallwch ddefnyddio top y gist i weithio arno yn y gegin, ac os digwydd ichi adael y caead yn agored mae'r oerni yn cadw'n isel tu mewn i'r gist. Pam felly y mae cryn werthu ar y rhewgell unionsyth? Mae'r math yma yn sicr o gymeryd llai o le yn y gegin ac hefyd mae'n haws cyrraedd at y bwydydd. Os ydych am rewi ychydig yn unig ar gyfer teulu bychan, mae'n werth i chi ystyried rhewgell ac oergell yn yr un dodrefnyn – a dau ddrws arno. Mae rhai o'r rhain yn dadmer eu hunain heb orfod gwagio'r rhewgell – gwaith caled ac oerllyd!

Os nad oes gennych le arbennig i roi rhewgell yn y gegin, defnyddiwch gornel o'r garej. Er y gall hyn fod yn anghyfleus os yw bellter o'r gegin, mae'n fantais fod y tymheredd fel rheol yn is yn y garej a bydd angen llai o drydan i'w redeg yn effeithiol. Cwtogi ar wario eto!

CYFRANIADAU

Dymunwn ddiolch i'r canlynol am eu cyfraniadau hael tuag at y gost o sefydlu Eco'r Wyddfa.

£3. Y Tad McNamara, Caernarfon. £2. Mr. Owen Wyn Williams, 18 Fleece Road, Long Ditton, Surbiton, Surrey. £1. Di-enw. £1. Miss L. M. Hughes, Bryn Moelyn, Llanrug. £1. Miss M. G. Roberts, Bryn Moelyn, Llanrug.

BRIGÂD AMBIWLANS IOAN SANT

Er mwyn ennyn diddordeb mewn triniaeth Cymorth Cyntaf bwriada Brigad Ambiwlans Ioan Sant gynnal gwersi byr (dwy awr) i unrhyw rai sydd angen gwybodaeth yn y maes hwn. Mae'r gwersi hyn eisoes wedi eu dangos ar y teledu yn ystod y misoedd diwethaf.

Bwriedir i'r gwersi dwy awr gyfarfod angen y rhai na all ddilyn yn llawn y cwrs hir (cyfres o ddeuddeg gwers).

Bydd y gwersi'n ymdrin â Llosgiadau, gwaedu, braw, esgyrn wedi torri ac adfywhau. Ceir gwybodaeth ychwanegol gan : Gwynfor Williams, Bryn Derw, Newton Street, Llanberis; Hugh C. Owen, Victoria Hill, Llanberis; O. Paul Jones, 21 Ffordd Cibyn, Caernarfon; Griff Roberts, Tŷ Gwyn, Llanrug.

BETHEL

ORGAN NEWYDD

Ers mis Hydref mae aelodau Capel Annibynwyr Bethel wedi casglu £1,000 i dalu am yr organ newydd Cafwyd benthyciad sylweddol, yn ddi-log, gan Mrs. Rawbothom, Tan y Cae, a chasglwyd y gweddill trwy gyfraniadau hael gan yr aelodau a thrwy drefnu Nosweithiau Coffi. Nos Wener, Ebrill 23, cafwyd Ffair Wanwyn lwyddiannus yn y Neuadd pryd y casglwyd digon o arian i glirio'r ddyled. Mae'r gweinidog a'r swyddogion yn ddiolchgar iawn i bawb am eu help.

TRIP YR HENOED

Siomedig iawn oedd ymateb yr henoed i'r gwahoddiad gan y gangen leol o Blaid Cymru i fynd am drip i Landudno bnawn Iau, Ebrill 22ain. Gan nad oedd digon o'r henoed wedi rhoi eu henwau i lenwi'r bws aeth nifer o wragedd a phlant ar y trip. 'Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn Llandudno er fod y gwynt yn oer iawn ar y traeth.

Diolch o galon i wragedd y gangen am drefnu cyfres o nosweithiau coffi i gasglu arian i dalu am y bws.

YN GWELLA

Balch iawn oedd pawb o weld Mrs. Glenys Davies, Llys Myfyr, wedi gwella digon i fod yn y Ffair yn y neuadd nos Wener diwethaf. Mae'r Parch. a Mrs. Davies yn diolch o galon am yr holl gardiau a dymuniadau da a dderbyniwyd oddi wrth eu ffrindiau ym Methel a Deiniolen.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Gôr yr Urdd ar gael yr ail wobr yn yr Eisteddfod Sir ym Mangor – canlyniad ardderchog ar eu cais cyntaf yn Eisteddfod yr Urdd.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Menna Deulyn, Minffordd, a Gwenno Bebb, Llwyn Eithin ar eu llwyddiant yn yr Arholiad Sirol. Mae'r ddwy yn aelodau o Ysgol Sul y Cysegr. Byddant yn cael eu gwobrwyo yng Nghapel Jerusalem, Bethesda, ym mis Mai.

BEDYDD

Dydd Sul, Ebrill 18, yng Nghapel Bethel bedyddiwyd Lliwen, cyntaf anedig Emyr a Jean Jones, Isallt, gan y Parch. Eryl Lloyd Davies.

PRIODAS

Dydd Iau, Ebrill 22, priodwyd Meirion Wyn Jones, mab hynaf Mr. a Mrs. W.H.Jones, Bron Eilian a Miss Sandra Hunt o Gaer.

Mae Meirion yn ddirprwy-brifathro yn Saltney, a Sandra yn gweithio mewn siop drin gwallt. Byddant yn cartrefu ym Mynydd Isa ger yr Wyddgrug. Pob dymuniad da i'r ddau yn eu bywyd priodasol.

PLAID CYMRU

Bydd Ffair Wanwyn gan y gangen leol o Blaid Cymru yn y neuadd nos Wener, Mai 21. Y gŵr gwadd fydd Mr. Dafydd Elis Thomas, A.S.

Plant Ysgol Gynradd Bethel a gymerodd ran yng Nghyngerdd Sefydlu Eco'r Wyddfa, ynghyd â'u prifathro Mr. I. Jones a'r athrawes a'u dysgodd Mrs. L. Williams.

MERCHED Y WAWR

Yng nghyfarfod mis Ebrill cafwyd cwis a sleidiau gan Mrs. Mary V. Jones o'r Waunfawr. Diolchwyd iddi ar ran y gangen gan Mrs. Shirley Evans.

Yng nghyfarfod mis Mai etholir swyddogion ar gyfer y tymor nesaf. Taer erfynnir am bresenoldeb yr holl aelodau.

CYDYMDEIMLO

Dydd Mercher, Ebrill 7, yn 94 oed bu farw Mrs. Sarah Williams, Carneddi, Stryd Newydd, Saron. Mae'n cydymdeimlad llwyraf â'r teulu yn eu profedigaeth.

Y GYMANFA

Dydd Sul nesaf, Mai 2, bydd dwy gymanfa'n cael eu cynnal ym Methel. Yn y Cysegr cynhelir Cymanfa Dosbarth Deiniolen – cymanfa'r plant am 2 a'r gymanfa ganu am 6. Yr arweinydd fydd Mr. E. H. Jordan a'r cyfeilydd Mr. J. Michael Jones. Yng Nghapel Bethel (A.) bydd y cyfarfod prynhawn yn dechrau am 2 a chyfarfod yr hwyr am 6. Arweinydd y gân fydd Mr. Eric Jones, Aberdar.

CYDYMDEIMLAD

Nos Lun, Ebrill 26 bu farw y cyngofrestrydd Mr. J. O. Williams, Parc y Wern. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i briod a'r teulu.

CYN TROI I BELLAFOEDD BYD — DEWCH I WELD Y *Marina* AR GARREG EICH DRWS.

CAR DA, DIOGEL DIBYNADWY. BRITISH LEYLAND AR EU GORAU! GWARANT 12 MIS – FAINT BYNNAG A DEITHIWCH

MAE GENNYM GEIR AIL LAW RHAGOROL HEFYD!

GAREJ MINFFORDD

BRITISH LEYLAND Morris BETHEL

PERCHENNOG T.R. & S. EVANS
FFÔN
Y FELINHELI 451

Tewch a D'eud

PERERINDOD BLACKIE

Y mae Blackie erbyn hyn tua deuddeg oed. Ci yn eiddo i Elsa Williams, Stryd Fawr, Llanberis ydi Blackie. Dod o rywle i fferm Elsa ar noson o eira mawr wnaeth o, tua deuddeg mlynedd yn ôl, a mam Elsa a'i cymerodd i'w fagu. Mae mam Elsa wedi marw erbyn hyn, ac hefo Elsa y mae Blackie.

Bob haf mae Blackie yn gwneud ei ffordd i Stesion Wyddfa. 'Chymerith o ddim reid ar y trên i fyny ond cyd-gerdded gyda'r trên yr holl ffordd i fyny i'r top. Pan erys y trên mewn stesion ar y ffordd i fyny, eistedd i law a wna Blackie a disgwyl iddi ail gychwyn; ac felly nes cyrraedd y copa.

Y mae dynes ffeind iawn yn y Gwesty ar ben yr Wyddfa, ac mae wedi dod i 'nabod Blackie yn dda iawn erbyn hyn, ac mi gaiff damaid o fwyd a diod ganddi. Ar ôl treulio amser yno, fe gymer **reid i lawr** ar y trên **olaf**. Y mae'r gweithwyr i gyd yn Stesion Wyddfa'n adnabod Blackie.

Beth sydd yn gwneud i Blackie fihafio fel hyn bob haf tybed?

Y mae rhagor i'r stori hon. Nid i ben yr Wyddfa'n unig y bydd Blackie'n crwydro, ond mae wedi cael ei ddarganfod ym Meddgelert a llawer lle arall. Ar ôl rhai blynyddoedd 'roedd Elsa'n digwydd dweud hanes Blackie mewn siop yn y pentref, ac mi 'roedd Mrs. Rawson Owen yn digwydd clywed hyn. Bu Mr. a Mrs. Rawson Owen yn edrych ar ôl y Gwesty ym Mhen y Pass am rai blynyddoedd, ac 'roedd ganddi gof am ddwy hen wraig yn aros ym Mhen y Pass am wythnos o wyliau a chi bach ganddynt. 'Roedd yn eira ar y pryd. Aeth y ci ar goll. Estynwyd y gwyliau am ddau neu dri diwrnod i chwilio amdano, ond heb ddim lwc.

16 Ffordd De Segontium,
Caernarfon.

Annwyl Olygydd,

Mewn atebiad i'ch gwahoddiad am wybodaeth bellach ynglŷn â thafarndai Cwm y Glo mewn dyddiau a fu, pleser gennyf gyflwyno'r ffeithiau isod er diddordeb eich darllenwyr.

Y dafarn gyntaf ar ochr orllewinol y pentref oedd y **Groeslon Marc** *(y Glyntwrog bresennol) Wrth deithio i'r dwyrain ac ar ochr dde i'r ffordd ar gyrion y pentref mae adfeilion hen Stryd Tanymarian lle'r oedd y* **Blue Bull**. *Rai llathenni ymlaen ar ochr chwith i'r ffordd arferai'r* **Newborough** *fod. Ymlaen am ychydig cyn troi i'r chwith o'r brif ffordd a chyn cyrraedd yr hen ffordd haearn deuem at dafarn* **Bing** – *tŷ â hanes eithriadol iddo pan oedd mwyngloddio copr mewn bri yn yr ardal. Cyfeirio'n camre yn ôl a chroesi'r briffordd ac ychydig ffordd i fyny Allt y Bryn ar ochr chwith i'r ffordd roedd* **Tan-y-Bryn**. *Yn ôl i'r briffordd ac ar ochr dde i'r ffordd roedd y* **Dafarn Wyllt**, *ac yn y pegwn dwyreiniol hwn o'r pentref, ar ochr chwith i'r briffordd roedd lleoliad* **Craig-y-Don**, *tra'n union dros y ffordd a hanner ffordd i fyny'r Allt Goch safai'r* **Dafarn**. *Dychwelyd i'r briffordd a throi i'r dde nes cyrraedd y* **Fricsan** *('Snowdon' ein dyddiau ni) – 'roedd tafarn yma cyn y ffrwydriad powdr a ddigwyddodd ar y ffordd cyn cyrraedd hen dafarn y* **Tyrpaig**, *a safai ar gongl Pont Penllyn wrth droi am bentref Brynrefail.*

Yn bur,
T. H. Morris

At y Golygydd,

CWM Y GLO

Gyda chyfeiriad at enw pentref Cwm y Glo yn yr ail rifyn o Eco'r Wyddfa. Er na chymerwn i fyth mo'r hyfdra i amau eglurhad yr Athro Melville Richards am enw'r pentref, yr oeddwn wedi cael stori arall am enw'r lle pan oeddwn yn un fach. Un o Lanberis wyf, ac 'roedd fy nhaid yn un da iawn am hanesion ac achau yr ardal, ac mae gen i gof amdano yn dweud fod y Cwm wedi cael yr enw yma am mai yno yr oedd y rheilffordd yn dod bellaf i fyny'r dyffryn am lawer iawn o flynyddoedd. Felly yr oedd yn rhaid i bawb o'r ardaloedd cyfagos ddod i'r orsaf yno i gasglu glo a nwyddau eraill gyda chert a cheffyl.

Ni wn lawer am dafarndai'r ardal, ond y mae yna stori am y 'Fricsan' – hon eto gan fy nhaid. Dywedir fod dau chwarelwr wedi bod yn casglu llwyth o bowdr du o'r orsaf at eu gwaith. Fe aeth y ddau i'r 'Fricsan' am ddiod bach cyn cychwyn yn ôl at y chwarel. Mae'n debyg fod y ddau yn eithaf hapus ac wedi mynd braidd yn ddihidio. Fe daniodd un ohonynt ei getyn ac fe aeth gwreichionen i'r cert ac at y powdr du. Bu ffrwydriad ofnadwy gan achosi difrod mawr yn yr ardal. Digwyddodd hyn yn y lle mae cors Llwyncoed heddiw, a phan oeddwn i'n mynd i Ysgol Brynrefail byddai'r rhan yma o'r ffordd dan ddwr yn aml ar dywydd gwlyb, a phlant Cwm y Glo a Llanrug yn cael diwrnod adref a phawb arall yn genfigennus iawn.

Beth bynnag, i fynd yn ôl at y stori, yr oedd fy hen nain a hen daid wedi gwneud oed ar y bont ym Mhenllyn y prynhawn yma ond trwy lwc a bendith ni allai y ddau gyfarfod am ryw reswm. Mae'n rhyfedd meddwl na fyddwn i na neb o'm teulu yn bod pe byddai'r ddau wedi cwrdd yn ôl eu harfer. Ond tydi ffawd yn beth anodd i'w ddirnad?

Rhian Williams,
Tŷ'r Ysgol,
Cilcennin,
Llanbedr,
Dyfed.

Diolch, Rhian, am y wybodaeth. Oes gan rhywun fwy o hanes y ffrwydriad yma? – **Gol.**

PENISARWAUN

MUDO

Bu'r Pasg eleni yn amser prysur iawn ym Mhenisarwaun gyda thenantiaid y tai newydd yn mudo yn haul y gwanwyn.

YN FFRAINC

Tra'r oedd eraill yn mudo, 'roedd un ferch o'r pentref, sef Anwen Jones, merch Nansi a Leslie Jones, yn Taverny, 15 milltir y tu allan i Paris ar ei gwyliau. Yr oedd yno gyda'i "penfriend" o Ffrainc.

GWAITH YMCHWIL

Bydd Gwilym Ellis, mab Mr. a Mrs. Arthur Ellis, Y Weirglodd Goch, sydd yn athro ac yn warden Canolfan Athrawon Llandrindod, yn dod a nifer o ddisgyblion ysgol i Fuarth y Clytiau i wneud gwaith ymchwil yn Eryri ym mis Mai.

DIOLCHIADAU

Dymuna Mrs. Martha Green, 4 Llys y Gwynt, ddiolch i'w phlant i gyd, i'r teulu, ac i'w ffrindiau oll am eu caredigrwydd tuag ati tra bu'n sal. Daeth o Gaernarfon at Aled a Norma i fyw Hydref diwethaf, ond erbyn hyn mae hi wedi symud i'w bynglo newydd yn Llys y Gwynt.

Y GOG

Daeth y Gog atom yn brydlon eleni. Bu wrthi'n canu ym Mhenisarwaun gyda'r nos, Ebrill 19. Dal yn hwyr a phrin mae'r gwenoliaid, er bod rhai wedi gweld un ar Ebrill 16. Tybed a glywodd rhywun y Gog yn gynharach nag eleni?

Anfonwch newyddion Penisarwaun i Leslie Larsen Llygad yr Haul, Penisarwaun. Ffôn : Llanberis 533.

TAN-Y-COED

CROESO

Croeso i Mr. a Mrs. William Pritchard a'r teulu sydd wedi symud o Gefn Llwyd i'r Garnedd i fyw. Pob dymuniad da iddynt yn eu cartref newydd.

O'R YSBYTY

Croeso adref o Ysbyty Dewi Sant i Mrs. Catherine Evans, Preswylfa, ac o Fryn Seiont i Mr. Joseff Ellis, 3 Tai Bryngwyn.

CYDYMDEIMLAD

Dydd Iau, Ebrill 15 bu farw Mrs. Elizabeth Humphreys, 6 Maesgerddi yn 77 mlwydd oed. Claddwyd hi ddydd Sadwrn, Ebrill 17. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu profedigaeth.

Anfonwch newyddion Tan y Coed i Leslie Larsen, Llygad yr Haul, Penisarwaun. Ffôn : Llanberis 533

DYCHAN DRAENOG

Llongyfarchiadau'r holl Fro i'r canlynol ar 'ennill' codiadau yn eu cyflogau : (1) Syr George Dowty (Cadeirydd Grwp Dowty) – yn ddiweddar cododd ei gyflog o £20,000 i £35,000 y flwyddyn. (2) L.A.Barratt (Barratt Developments) i fyny 42%; yn awr yn £34,000 y flwyddyn. (3) Gerald Sanders (James Walker Goldsmiths and Silversmiths) i fyny 45% i gyrraedd £700 yr wythnos. Ôl-nodyn (1) Dywed Draenog nad oes yr un o'r tri gŵr yma'n byw yn y Fro hon. Ôl-nodyn (2) PWYSIG – Hei, hogia, cofiwn gadw at y £6 a'r 3% bondigrybwyll.

DRAENOG DIFRIFOL AR DDYDD DIFROD A DINISTR

Oddi wrth gymrawd ddraenog o Swydd Efrog daeth i law y newydd difrifol fod Cyngor Tref Barnsley wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio eu pencadlys 'mochel rhag rhyfel niwcliar oherwydd i'r pencadlys gael ei ddinistrio gan blant y cylch.

10% oddi ar Bapur Wal a Phaent Leyland & Jellipex yn

E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS FFÔN 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

DEINIOLEN

PEDAIR CENHEDLAETH

Bedyddiwyd Guto Owen, 7 wythnos oed, y mis diwethaf gan y Parch. Stanley H. Williams. Yn y llun o'r chwith i'r dde mae Mrs. Ann Owen, Guto, Arthur Owen a Nel Owen. Yn 78, Severn Grove, Caerdydd y mae Guto'n byw, ond dymuniad y teulu oedd ei fedyddio yn Neiniolen.

CRONFA YMCHWIL "CYSTIC FIBROSIS"

'Roedd yr wythnos yn diweddu Ebrill 24ain yn wythnos ymdrech arbennig yr ardal tuag at Gronfa Ymchwil "Cystic Fibrosis". Mrs. Nellie Parry, Voelas, Stryd Uchaf, oedd yn gyfrifol am y trefniadau lleol, a phleser yw cyhoeddi bod yr elw hyd at Ebrill 25 ain wedi cyrraedd y swm o £227.05, gydag addewidion am gyfraniadau pellach. i ddod.

Enillwyd gwobr gyntaf y raffl gan Mr. Dennis Jones, 16 Tai Caradog, a'r ail wobr gan Mr. Meurig Lloyd Jones, 23 Pentre Helen.

Dymuna Mrs. Nellie Parry fynegi diolch cynnes i bawb fu'n hyrwyddo'r trefniadau, ac am y cyfraniadau at y casgliad. Gwerthfawrogir yn arbennig gefnogaeth Swyddogion ac Aelodau Seindorf Deiniolen am eu perfformiad gwirfoddol ym Mangor bnawn Sadwrn, Ebrill 24ain pryd y casglwyd yn agos i drigain punt at yr achos. Cydnabyddir yn wresog hefyd gymwynas Mr. T. H. Davies, Bethesda, yn rhoddi bws yn ddi-dâl at gludo'r Seindorf yn ôl a blaen i Fangor.

CLWB IEUENCTID

Ail-ddechreuwyd Clwb leuenctid yn y pentref fis Tachwedd 1975 dan arweiniad Mr. Ieuan Roberts o'r Felinheli, ac erbyn hyn mae dros hanner cant o aelodau. Amlygwyd brwdfrydedd arbennig gan yr aelodau gydol y tymor, ac fe'u canmolir am eu hymdrechion mewn amryw o'r cystadleuthau gynhaliwyd ledled y sir.

Hoffai'r arweinydd ddiolch i Mr. W.J.Eames, prifathro Ysgol Gwaun Gynfi, a hefyd i Mr. J. Morris, gofalwr, am eu cymorth drwy'r tymor.

CYNGOR EGLWYSI

Bore'r Groglith cynhaliwyd oedfa arbennig dan nawdd y Cyngor yn Eglwys Libanus, Clwtybont. Daeth cynrychiolaeth dda o aelodau Eglwysi'r pentref i gyfranogi o'r elfennau a gwrando pregeth gan y Parch. Ifor Williams, gweinidog Eglwys Libanus.

EGLWYS CEFN Y WAUN

Cafwyd oedfaon grymus yng nghyfarfodydd pregethu Eglwys Cefn y Waun a gynhaliwyd nos Sadwrn a Sul y Pasg. Y gwŷr gwadd oedd y Parchedigion Elwyn Hughes, Rhuthun a Huw Jones, Y Bala.

PERSONOL

Llongyfarchiadau cynnes i Gwenlli Pierce Roberts, Crud yr Awel (Eglwys Cefn y Waun) ac Elfed Williams, 12 Ffordd Deiniol (Eglwys Disgwylfa) ar eu llwyddiant yn yr Arholiad Sirol dan 10 oed. Fe'u gwobrwyir yn y Cyfarfod Misol a gynhelir yng Nghapel Jerusalem, Bethesda.

SEFYDLIAD Y MERCHED

Nos Lun, Ebrill 5ed, cyfarfu'r Sefydliad o dan lywyddiaeth Mrs. M.A.Thomas, Maes Gwylfa. Dymunwyd gwellhad i amryw o'r aelodau oedd yn wael a chydymdeimlwyd â rhai oedd wedi cael profedigaeth. Braint oedd cael croesawu pedair aelod newydd. Y gŵr gwadd oedd Mr. John Ogwen, yr actor amryddawn, a llongyfarchwyd ef ar ei yrfa ddisglair ac yn arbennig ar ei ddrama ddiweddar, sef 'Merch Gwern Hywel'. Rhoddodd Mr. John Ogwen sgwrs ar ei waith, ar amodau actio a llawer tro trwstan a fydd yn digwydd tra'n paratoi y pethau a welwn ni ar y teledu. Atebodd amryw o gwestiynau ac yna am fod amryw wedi erfyn arno darllenodd ddarn o "Un Nos Ola' Leuad".

Bydd Mrs. Smalley, Green Terrace, yn cynrychioli Penisarwaun a Deiniolen yn y Cyfarfod Blynyddol yn Llundain ym mis Mehefin.

Ar Fai 3ydd, disgwylir Mrs. H. Jones, Llanberis i roi arddangosfa "Crosio" a gobeithir cael dosbarth o dan ei thiwtoriaeth yn dechrau fis Medi nesaf.

ETHOLIAD CYNGOR ARFON

LESLIE P. ROBERTS (LLAFUR)

4 Green Terrace, Deiniolen.

Brodor o Ddeiniolen ydwyf ac addysgwyd fi yn Ysgol Gwaun Gynfi, yna bûm yn dilyn Dosbarthiadau Nos dan nawdd Cymdeithas Addysg y Gweithwyr.

Dechreuais weithio yn Chwarel Dinorwig. Bûm yn gwasanaethu yn y Llu Awyr o 1940 i 1946. Yr wyf yn awr yn gweithio yn Ffatri Ferodo, Caernarfon.

'Rwy'n aelod o adran cymdeithas undeb Arfon, yn briod, ac yn aelod o Eglwys yr Annibynwyr yn Neiniolen.

Mae gennyf brofiad helaeth o wasanaethu ar wahanol bwyllgorau yn ymwneud ag achosion lleol. Cymerais ran flaenllaw ar ran y trigolion lleol yn cyfathrebu â swyddogion Cyngor Arfon ynglŷn â'r adfeilion o gwmpas Parc Ceir Deiniolen.

'Rwyf newydd gael cadarnhad gan brif swyddog Technegol y Cyngor fod fy ymdrechion wedi bod yn llwyddiannus.

Fy uchelgais yw gwneud Deiniolen a Dinorwig yn lle gwell i drigo ynddo, i gael gwared â phob hagrwch, ac i adeiladu at bopeth sydd yn dda.

GWYNDAF ROBERTS (PLAID CYMRU)

Manteisiaf ar y cyfle hwn i'ch cyfarch trwy'r Papur Bro. Pe'm hetholid tynghedaf fy hun i'ch gwasanaethu fel ardalwyr.

Gan i mi gael fy magu yn yr ardal ac yn awr yn magu fy mhlant fy hun yma, mae'n naturiol fy mod am warchod buddiannau'r fro er mwyn yfory.

Teimlaf y medrwn gydweithio â'm cymdogion ar Gyngor Arfon a Chyngor Gwynedd.

CYNGOR BWRDEISDREF ARFON

Bydd y Cyng. O. Myfyr Parry yn ymddeol ddechrau Mai fel cynrychiolydd Ward Dinorwig a Deiniolen ar Gyngor Bwrdeisdref Arfon, a chynhelir etholiad ar Fai 6ed i ddewis ei olynydd. Manteisiwn ar y cyfle hwn i werthfawrogi ymroddiad y Cyng. O. Myfyr Parry yn ystod tymor ei wasanaeth ar Gyngor Arfon.

Anfonwch newyddion Deiniolen i Mr. Robert Williams, 4 Tai Caradog, Deiniolen.

Y Daily Draenog ydi papur ty ni, ond bob bore ma'r wraig yn gwneud 'swop' am y Daily Post. A'r dydd o'r blaen darllenais erthygl ar drafferthion Theatr Gwynedd draw ym Mangor yn y papur hwnnw.

Yn yr erthygl soniwyd dair gwaith am Gwmni Theatr Cymru ac fe gamsillafwyd yr enw y tri thro.

Ymgais 1 Cwmni Theatre Cymru
Ymgais 2 Cwmni Theatr Cwmri
Ymgais 3 Cwmni Theatr Cwmru

Tri chynnig i Gymro – pedwar i'r Daily Post, mae'n amlwg. Mi lyna i i'r Daily Draenog, diolch yn fawr!

E.W.&M.WILLIAMS

Y BECWS DEINIOLEN

FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES – TEISENNAU BLASUS !

(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)

***

DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN, PENISARWAUN, LLANRUG a BETHEL

JACOB A. JAMES
(ANNIBYNNOL)

Llanberis 461 **Regent House, Deiniolen.**

Cyflwynais fy enw fel Cynghorydd Annibynnol Ward Deiniolen a Dinorwig, y ddwy ardal mwyaf cyfeillgar yng Nghymru heddiw.

Ni ddylai gwleidyddiaeth fod yn "bwnc" mewn llywodraeth leol. Dyletswydd cynghorydd ydyw rhoddi cymorth i bawb a ddaw i ofyn am gymorth heb ystyried pa "blaid wleidyddol" a gefnogant. Yr ydwyf wedi bod yn fasnachwr yn Neiniolen am lawer o flynyddoedd ac yn adnabod bron pawb yn y ddwy "ward" yma. Yr ydwyf wedi cael fy mywoliaeth, ac yn cael i'r dydd heddiw, o'r ardaloedd yma. Yr ydwyf yn teimlo fod arnaf ddyled i'r ardaloedd yma, ac yn teimlo mai'r ffordd orau i mi dalu yn ôl iddynt ydyw drwy eu gwasanaethu fel cynghorwr. 'Rwyf eisoes yn aelod o'r Cyngor Cymuned. Buaswn wrth law bron bob dydd a hwyrnos. Pe byddai'n well gan rywun drafod unrhyw fater ar y ffôn, mae y rhif ar ddechrau'r llythyr hwn.



AR WERTH

Groeslon – Semi 2 flwydd oed gyda garej. Stafell fyw, Cegin/ Stafell fwyta, 3 llofft, stafell molchi, carpedi trwyddo i gyd. Gardd o flaen a thu cefn. Ymholiadau i Ken Jones, 27 Stad Cae Sarn, Groeslon, Gwynedd neu ffoniwch Caernarfon 4121. Estyniad 393.

Gwely dwbl Matres sbrings; cot babi a mân ddodrefn eraill. Robert Skillicorn, Tan y Weirglodd, Clwt-y-bont.

Sprin Dryer fel newydd. £10. Caernarfon 3776.

Austin 1100 1968. 61,000 milltir. MOT am flwyddyn. Trwydded tan fis Gorffennaf. £330. Waunfawr 200.

Soffa a dwy gadair freichiau gwyrdd. Mewn cyflwr da. £10. Mrs. Owen.

Carmen Heated Rollers set o 14. £5. Llanberis 220.

Cadair olwyn Silver Cross las gyda gorchydd a ffedog. £5.Ffôn Caernarfon 4839.

Cadair olwyn/pram Marnet las tywyll – fel newydd. £25 Ffôn Felinheli 558

YN EISIAU

Cwmni Drama Llanberis angen dillad hen, hen. Cysylltwch ag unrhyw aelod o'r cwmni.

Botymau Perl Bob siap, bob seis. Mrs. N. Morris, Dôl Elidir, Llanberis.

Injian Wnio hen, hen ffasiwn Llanberis 220.

Beic 2 olwyn i ferch fach 4 oed. Ffon : Y Felinheli 726.

HYSBYSEBWCH YN ECO'R WYDDFA

DYDIO'N COSTIO DIM!

Anfonwch at
Siân Thomas,
Foelas,
Stryd Newton,
Llanberis.
(Ffôn : Llanberis 220)

Dyddiadur y Mis

Ebrill 30, nos Wener. Aelwyd yr Urdd, Llanberis. Bydd "Ffilm yr Urdd" i'w gweld yn Festri Preswylfa am 8 o'r gloch. Mynediad am ddim.

Deiniolen. Cyfarfod Blynyddol y Clwb Billiards yn y Llyfrgell am 7.00.

Mai 1, nos Sadwrn Cinio'r Blaid Lafur yng ngwesty'r Fictoria, Llanberis.

Mai 2, dydd Sul Capeli'r M.C. Llanberis. Am 10 o'r gloch yng Nghapel Coch derbynnir nifer o ieuenctid yr ofalaeth, pryd y gweinyddir y Cymun Sanctaidd. Am 2 a 5.30 yng Nghapel Coch cynhelir y Gymanfa.

Cymanfa Gofalaeth Bethel yng Nghapel Bethel, Bethel. Arweinydd y gân fydd Mr. Eric Jones, Aberdâr, sydd yn frodor o Fethel. Cyfarfodydd am 2 a 6.

Mai 3, dydd Llun Clwb Methedig Eryri yn cyfarfod yn y Ganolfan, Llanberis am 2 o'r gloch.

Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yng Nghanolfan Llanberis am 7.30

Mai 5. nos Fercher Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur Llanberis yn y Ganolfan am 7.30.

Mai 6, dydd Iau Etholiadau Cyngor Arfon.

Mai 8, dydd Sadwrn Ffair Sborion dan nawdd Pwyllgor Merched Seindorf Llanrug yn "Feed My Lambs" Caernarfon am 1.30 tan 4.00.

Mai 10, dydd Llun Clwb Methedig Eryri yn cyfarfod yn y Ganolfan, Llanberis am 2 o'r gloch.

Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-Droed yn y Ganolfan, Llanberis, am 7.30.

Mai 11, dydd Mawrth Cangen Llanrug o Ferched y Wawr yn cyfarfod.

Cyfarfod misol o Undeb y Mamau, Cwm-y-glo yn yr ysgol.

Mai 12, nos Fercher Clwb y Mamau, Llanberis yn y Ganolfan am 7.30. Cyfarfod i gloi'r tymor.

Cyfarfod o Ferched y Wawr Bethel.

Mai 13, nos Iau Noson o Adloniant a choffi yn y Gapolfan, Llanberis am 7.30 dan nawdd Cangen Plaid Cymru.

Sefydliad y Merched Bethel yn mynd ar wibdaith.

Mai 16, dydd Sul Sul Ewyllys Da.

Mai 17, dydd Llun Clwb Methedig Llanberis yn cyfarfod yn y Ganolfan am 2 o'r gloch.

Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yng Nghanolfan Llanberis am 7.30.

Mai 19, nos Fercher Cangen Cwm-y-glo o Ferched y Wawr yn cyfarfod yn yr ysgol.

Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur Llanberis yn y Ganolfan am 7.30

Mai 20, dydd Iau Sefydliad y Merched. Cynhelir Cyngor y Gwanwyn ym Motwnnog.

Mai 24, dydd Llun Clwb Methedig Eryri yn cyfarfod yn y Ganolfan, Llanberis am 2 o'r gloch.

Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-Droed yn y Ganolfan am 7.30.

Mai 25, dydd Mawrth Cyfarfod misol o Glwb yr Heulwen, Penisarwaun.

Mai 27, nos Iau Sefydliad y Merched, Llanberis. Noson yng nghwmni Mr. R. E. Pritchard, Swyddog Iechyd Amgylcheddol, yn y Ganolfan am 7.

Mai 31, dydd Llun Clwb Methedig Eryri yn cyfarfod yn y Ganolfan, Llanberis am 2 o'r gloch.

Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan Llanberis am 7.30.

DYDDIADAU I'W COFIO

Mehefin 1 – 5 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhorthaethwy.

Mehefin 6 – 12 Wythnos Garnifal Llanrug.

Mehefin 12. Gwibdaith dan nawdd y Cyngor Eglwysi i Ddolwar Fach, ym mlwyddyn dathlu dauganmlwyddiant Ann Griffiths. Pawb sydd â diddordeb i roi eu henwau i Mr. J.S.Thomas, Bryn Aethwy, Stryd Warden, Llanberis. Bydd y gost o dan £1.

Mehefin Bydd Clwb Methedig Eryri yn cystadlu yn yr adran Methedig yn Sioe Dyffryn Ogwen.

Gorffennaf 3 Carnifal Cwm-y-glo.

Gorffennaf 4 – 10 Wythnos Garnifal Seindorf Deiniolen.

Gorffennaf 9 – 17 Wythnos Garnifal Llanberis.

Mehefin 'Sponsored Walk' tuag at Garnifal Llanberis. Cofiwch gefnogi'r cerddwyr.

Croesair

RHIF 3

AR DRAWS

3. Fforest (7)
7. Mae llawer yn 3 Ar Draws (6)
8. Lled dda (6)
9. Rhwymedigaethau (8)
11. Gallu arbennig (4)
12. Diwedd yr wythnos (3.6.)
17. Hun (4)
18. Colofn i nodi angen yn Eco'r Wyddfa (2.6)
19. Cwympo (6)
20. Addfwyn (6)
21. Dilynant gawodydd (7)

I LAWR

1. Llogelli (7)
2. Ai Dai ai Aled fu'n codi hwn? (7)
3. Cerydd da yn Ne Cymru (7)
4. Llai na gormod (5)
5. Gwastadedd (5)
6. Offeryn llinynnol (5)
10. Griddfan (5)
13. Colomen wyllt (7)
14. O dro i dro (7)
15. Hwyrddydd ddoe (7)
16. Gresynus (7)
17. Rheolaidd (5)
18. Ni ddaw byth!!!! (5)

Cyfrifir y llythrennau canlynol fel un llythyren : ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.

Gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir ar ôl i'r holl gynigion ddod i law. Anfoner y cynigion i Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis.

Dyddiad Cau : Mai 22ain.

ATEBION RHIF 2

AR DRAWS : (1) Distawrwydd. (6) Atom. (9) Enaid. (10) Blewyn Coch. (11) Taflunydd. (12) Cannu. (14) Lamp ol. (16) Emyn. (19) Lili. (20) Wrth Law. (22) Wyres. (23) Ymadawol. (25) Tymhoraidd. (26) Lawnt. (27) Naddu. (28) Uniganedig.

I LAWR : (2) Siarad lol. (3) Ardal. (4) Robin Goch. (5) Ywen ddu. (7) Machlud haul. (8) Llyncu mul. (13) Tro trwstan. (15) Melysion (17) Nawddogwyd. (18) Tri ar ddeg. (21) Cywain. (24) Aflan.

Enillydd Croesair Rhif 2 : Mrs. C. Williams, Gwelfryn, Llanrug.

Ddydd Sadwrn y Pasg, Ebrill 17, dadorchuddiwyd cofeb i'r diweddar T. Rowland Hughes o flaen 20 Stryd Goodman, Llanberis.

Cymerwyd rhan yn y cyfarfod gan Mrs. Eirene Davies, Syr Ben Bowen Thomas, Mr. Selwyn Pritchard a Stephen, mab Mr. a Mrs. D. Roberts, perchnogion presennol y ty.

Ar ôl y dadorchuddio bu gwasanaeth yng Nghapel Gorffwysfa o dan arweiniad y Parch. John Owen. Siaradwyd gan Mr. Edward Rees (cyn-brifathro'r Coleg Normal) a Mr. Rowland Wyn Jones, nai T. Rowland Hughes. Canwyd geiriau o waith y bardd, "Dwy law yn erfyn", gan Côr Plant Ysgol Dolbadarn.

Canodd Miss Bethan B. Jones "Yr Hen Delynor" o waith y bardd ar alaw a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur gan Mrs. Ann Pritchard.

Cafwyd anerchiad hefyd gan Dafydd Wigley, A.S. a chanodd y gynulleidfa emyn adnabyddus T. Rowland Hughes, "Tydi, a roddaist", i derfynu.

Rhan o'r dorf tu allan i 20 Stryd Goodman.

CHWARAEON

TARIAN ECO'R WYDDFA

'Does fawr o neb a fyddai'n dadlau nad mawr sydd orau ym myd pêl droed yr ysgolion cynradd, h.y., y mwyaf fo maint yr ysgol y mwyaf yw nifer y peldroedwyr da sv'n debyg o fod ar gael.

'/n wir, mae'r sefyllfa'n codi yn yr ysgolion lleiaf nad oes digon o fechgyn â diddordeb a gallu ynddynt i godi tîm o unrhyw safon. Yn anffodus, mae hyn yn golygu nad oes cyfle i'w peldroedwyr gorau gynrychioli eu hysgol a hyn, wrth gwrs, yn rhan bwysig o addysg.

WEL DYMA GYFLE IDDYNT

Y mae Eco'r Wyddfa am gynnig Tarian i'w hennill yn flynyddol gan dimau pedwar-bob-ochr o'r chwe ysgol gynradd yn y cylch — y tîm buddugol i'w chadw am flwyddyn.

Enw'r gystadleuaeth fydd TARIAN PEDWAR-BOB-OCHR ECO'R WYDDFA. Bydd pob ysgol yn dewis chwe phlentyn i'w chynrychioli (pedwar a dau wrth gefn), a chynhelir y gystadleuaeth yn Ysgol Brynrefail.

Os bydd pob ysgol yn ymuno â'r gystadleuaeth, bydd yn golygu pum gêm o ddeng munud yr un i bob tîm, a'r holl chwarae trosodd

YSGOL BRYNREFAIL

Yn ystod y mis bu cystadlu brwd rhwng pedwar tŷ'r Ysgol ar y meysydd pel droed.

Cynrychiolwyd pob tŷ gan dri thîm o saith, y rhain yn cystadlu yn yr adran ieuaf (o dan 13 oed), yr adran iau (o dan 15 oed) a'r adran hyn.

'Roedd tair gêm i'w chwarae felly gan bob tîm, a phob gêm yn parhau am ychydig mwy na chwarter awr.

Dyma'r canlyniadau :

	E.	CYF.	C.	OB.	YE.	P
BECHGYN IEUAF						
Elidir	3	0	0	11	0	6
Gwyrfai	2	0	1	8	5	4
Eryri	1	0	2	5	8	2
Eilian	0	0	3	2	13	0
BECHGYN IAU						
Eryri	2	1	0	3	1	5
Elidir	1	2	0	10	3	4
Gwyrfai	1	0	2	3	10	2
Eilian	0	1	2	4	6	1
BECHGYN HYN						
Eilian	3	0	0	7	1	6
Eryri	1	1	1	5	6	3
Elidir	1	0	2	3	5	2
Gwyrfai	0	1	2	3	6	1

Roedd ugain pwynt i'w hennill gan y tîm cyntaf ym mhob adran, pymtheg i'r ail, deg i'r trydydd a phump i'r olaf. Cyfanswm y pwyntiau felly oedd

GWYRFAI 30
EILIAN 30
ELIDIR 45
ERYRI 45

Uchafbwynt y mis i redwyr yr ysgol oedd y rasus traws gwlad. Y bechgyn eto yn rhedeg yn eu tair adran, ond un ras i'r genethod. Y maent hwy, y bechgyn iau a'r ieuaf yn rhedeg tros gwrs o rhyw ddwy filltir a hanner, tra mae'r bechgyn hŷn yn rhedeg rhedeg

Fe'u gwobrwyir yn y Cyfarfod ado

gan Mr. Dennis Jones, 16 Tai Caradog, a'r ail wobr gan Mr. Meurig Lloyd Jones, 23 Pentre Helen.

Dymuna Mrs. Nellie Parry fynegi diolch cynnes i bawb fu'n hyrwyddo'r trefniadau, ac am y cyfraniadau at y casgliad. Gwerthfawrogir yn arbennig gefnogaeth Swyddogion ac Aelodau Seindorf Deiniolen am eu perfformiad gwirfoddol ym Mangor bnawn Sadwrn, Ebrill 24ain pryd y casglwyd yn agos i drigain punt at yr achos. Cydnabyddir yn wresog hefyd gymwynas Mr. T. H. Davies, Bethesda, yn rhoddi bws yn ddi-dâl at gludo'r Seindorf yn ôl a blaen i Fangor.

CLWB IEUENCTID

Ail-ddechreuwyd Clwb Ieuenctid yn y pentref fis Tachwedd 1975 dan arweiniad Mr. Ieuan Roberts o'r Felinheli, ac erbyn hyn mae dros hanner cant o aelodau. Amlygwyd brwdfrydedd arbennig gan yr aelodau gydol y tymor, ac fe'u canmolir am eu hymdrechion mewn amryw o'r cystadleuthau gynhaliwyd ledled y sir.

Hoffai'r arweinydd ddiolch i Mr. W.J.Eames, prifathro Ysgol Gwaun Gynfi, a hefyd i Mr. J. Morris, gofalwr, am eu cymorth drwy'r tymor.

Misol a gynhelir yng Nghapel Jerusalem, Bethesda.

SEFYDLIAD Y MERCHED

Nos Lun, Ebrill 5ed, cyfarfu'r Sefydliad o dan lywyddiaeth Mrs. M.A.Thomas, Maes Gwylfa. Dymunwyd gwellhad i amryw o'r aelodau oedd yn wael a chydymdeimlwyd â rhai oedd wedi cael profedigaeth. Braint oedd cael croesawu pedair aelod newydd. Y gŵr gwadd oedd Mr. John Ogwen, yr actor amryddawn, a llongyfarchwyd ef ar ei yrfa ddisglair ac yn arbennig ar ei ddrama ddiweddar, sef 'Merch Gwern Hywel'. Rhoddodd Mr. John Ogwen sgwrs ar ei waith, ar amodau actio a llawer tro trwstan a fydd yn digwydd tra'n paratoi y pethau a welwn ni ar y teledu. Atebodd amryw o gwestiynau ac yna am fod amryw wedi erfyn arno darllenodd ddarn o "Un Nos Ola' Leuad".

Bydd Mrs. Smalley, Green Terrace, yn cynrychioli Penisarwaun a Deiniolen yn y Cyfarfod Blynyddol yn Llundain ym mis Mehefin.

Ar Fai 3ydd, disgwylir Mrs. H. Jones, Llanberis i roi arddangosfa "Crosio" a gobeithir cael dosbarth o dan ei thiwtoriaeth yn dechrau fis Medi nesaf.

PÊL DROED

LLANRUG 0 LLANBERIS 1

Y trydydd o Ebrill a dyma'r tro cyntaf i'r ddau dîm sydd yn y gynghrair gyfarfod yng nghyfnod bodolaeth yr Eco. Gêm ddigon gwael oedd hi — Ray Harding yn sgorio'r unig gôl.

Y mae'r cyfnod pan fyddai tîm gorau'r gynghrair yn Llanberis trosodd yn anffodus. Am y mwyafrif o dymhorau'r chwedegau hwy oedd y pencampwyr, a chystadleuaeth i fod yn ail oedd hi i weddill y timau. Daeth cyfnod yr un mor llewyrchus i Lanrug ychydig yn ddiweddarach. Byddwn yn gwybod erbyn ein rhifyn nesaf sut dymor fu hwn iddynt. Y mae eu gobeithion am gwpan neu ddau yn fyw o hyd, ond ymddengys fod y bencampwriaeth yn saff eleni yn nwylo Mountain Rangers.

LLANRUG

Yn ystod y mis chwaraewyd gêm gyfartal yn erbyn Mountain Rangers yng Nghwpan Deanfield, gyda Richard Williams yn sgorio, a churwyd Coedmawr o ddwy gôl i ddim. Hefin Pritchard a Dafydd Arfon Jones yn sgorio y tro hwn.

EBRILL 24

Coleg Normal 0 Llanrug 0

Ail rownd Cwpan Penrhyn, a'r Normal yn ymosod drwy gydol yr hanner cyntaf, a Llanrug yn ffodus na sgoriwyd yn eu herbyn. I wneud pethau'n waeth, ar ddechrau'r ail hanner gyrrwyd Richie Jones oddi ar y cae gan y dyfarnwr am daro un o'r myfyrwyr. Cau'r drysau oedd unig obaith Llanrug wedyn, a bu'r amddiffynfa'n llwyddiannus yn hyn o beth. Yn wir, yn eiliadau ola'r gêm cafodd Keith Davies gyfle da i sgorio ond methodd â rhoi'r bêl yn y rhwyd wag ar ôl curo'r golgeidwad. Bydd yn rhaid ail-chwarae felly yn Llanrug.

CWPAN PANTYFEDWEN

Mae tîm Aelwyd Llanberis yn mynd o nerth i nerth, a bellach yn rownd derfynol y Cwpan.

Rhosllannerchrugog oedd eu gwrthwynebwyr yn y rownd gynderfynol ar y 17eg o'r mis, ac fe'u trechwyd o 6 gôl i 2. 'Roedd y gêm braidd yn unochrog, a dweud y gwir, — Llanbêr yn ymosod trwy'r hanner cyntaf ond yn methu â chael y bêl i'r rhwyd; un gôl gan Ian Jones oedd eu hunig wobr. Yr un oedd y patrwm yn yr ail hanner, a daeth pum gôl arall, dwy yr un gan Tony Thomas ac Iwan Evans, a John Williams yn sgorio'r llall.

Rwan am y rownd derfynol yn Aberystwyth ar y 15fed o Fai. Mae'r hogia'n haeddu cefnogaeth a bydd bysiau yn mynd yno — rhowch eich henwau i'r Parch. John Owen neu i Lal Jones.

LLANBERIS

Bydd Llanberis wedi chwarae naw gêm cyn diwedd y mis hwn. Yn ychwanegol i guro Llanrug aethant i rownd gyn-derfynol cwpan Alves trwy guro Caernarfon United, dod yn gyfartal â Phorthmadog yng Nghwpan Deanfield, dod yn gyfartal yn gyntaf, ac wedyn curo Caernarfon United yng Nghwpan Penrhyn a churo Cricieth yn y gynghrair o bum gôl i ddwy. Yn y gemau hyn sgoriodd Barry Pitts saith gôl a Meirion Williams bump.

EBRILL 24

PORTHMADOG 3 LLANBERIS 3

Gêm Cwpan Deanfield a golwg braidd yn flinedig ar hogia' Llanber bellach — a 'does ryfedd. Llanberis oedd ar y blaen ar hanner amser o ddwy gôl i un. Barry Pitts a Kelvin Jones yn sgorio. Yn yr ail hanner aeth Port ar y blaen gan sgorio dwy gôl dda, ond 'roedd Barry Pitts wrth law eto i wneud y sgôr yn gyfartal.

AR LIN MAM

Dydd Llun y Pasg, a hen dîm Llanberis yn dysgu'r tîm presennol sut i chwarae pêl droed. I fod yn deg, mae'n rhaid dweud nad oedd tîm cryfaf Llanberis wedi troi allan, ond ar y llaw arall 'doedd y mwyafrif o'r hen dîm heb weld pêl ers blynyddoedd.

Pedair gôl i ddim oedd y sgôr, — yr hen sêr yn gadael i'r bêl wneud y gwaith drostynt a phob un yn gwneud ei waith ei hun yn effeithiol dros ben. Tîm da o hen bennau.

Merch fach y Golygydd yn gofyn i'w thad ar hanner amser ar ôl iddo benderfynu peidio â chwarae ymlaen : "Dad, pam nad wyt ti'n dal i chwarae?" Arwel : "Isio rhoi cyfle i rywun arall ydw i". Ha! Ha! — 'doedd ganddo ddim digon o wynt i chwythu ei drwyn!

HEBOG Bach

Cyhoeddir y dudalen hon gyda chydweithrediad Gwasg Gwynedd, cyhoeddwyr HEBOG, y comic misol.

WIL WIRION





Genethod Mrs. A. Jones — "Y Siarabang".

Parti Dawnsio Gwerin — Miss G. Edwards a Mr. D. I. Roberts. Mae un dyn bach ar ôl yn y llun — lle'r oeddet ti Derfel?

Hogia' Miss J. Jones a Mrs. O. M. Jones — **"Y Crwydriaid"**

Dosbarthiadau meithrin yn perfformio "Modryb Siân". Dosbarthiadau Mrs. M. Hamer a Mrs. M. Griffiths.

SIBRYDION O'R YSGOLION

Dosbarth Miss G. Edwards — "Ar goll yn y goedwig".

Peldroedwyr dosbarth Mrs. A. Jones.

CYNGERDD YSGOL GYNRADD LLANRUG

Cân Actol dosbarth Mr. Ken Huws yn perfformio "Barti Ddu".

Dosbarth Mr. D. I. Roberts yn perfformio "Ffair y Borth".

CWESTIWN
Be' di'r ffordd hawsa' o symud llwyth o Lanber i Landudno, o Deiniolen i Dundee ac o Fethel i Fanceinion?
ATEB
H.F. OWEN
YMGYMERWR CLUDIANT — HAULAGE CONTRACTOR
BRON MEILLION
Bethel
Ffôn : Port Dinorwig 487
Fe gariwn rywbeth i rywle (bron!)

ARCHEB BLWYDDYN
ECO'R WYDDFA
Drwy'r post (12 rhifyn)
£2

Enw _____
Cyfeiriad _____
_____
_____

Anfoner at y Trefnydd Gwerthiant : Selwyn Williams, Cartref, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.